Rhan Ff – Hygyrchedd a chyfranogiad

Cynnwys

1 Sicrhau bod y broses gofrestru'n hygyrch
- Cyflwyniad
- Cefndir deddfwriaethol
- Etholwyr anabl
- Etholwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg
- Canolfannau rheoli galwadau
- Dylunio ffurflenni etholiadol
- Ysgrifennu ar gyfer y we

2 Gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Cyflwyniad
- Gofynion statudol
- Cynllunio strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Gwerthuso gwaith ar ymwybyddiaeth y cyhoedd
- Llunio taflenni
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd
- Rhagor o wybodaeth

1 Sicrhau bod y broses gofrestru'n hygyrch

Cyflwyniad

1.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol o'r farn bod y gallu i gymryd rhan yn y broses cofrestru etholiadol yn rhan hanfodol o ddemocratiaeth iach ac yn wir yn angenrheidiol i sicrhau cofrestr gyflawn.

1.2 Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio adolygiad y Comisiwn o fynediad cyfartal i weithdrefnau etholiadol a gyhoeddwyd yn *Equal access to democracy*.[1] Maent hefyd yn ystyried newidiadau deddfwriaethol a wnaed ers yr adroddiad hwnnw, ac yn cynnig awgrymiadau eraill ar gyfer arfer da.

Cefndir deddfwriaethol

1.3 Mae nifer o ddarpariaethau cyfreithiol wedi'u cyfeirio'n benodol at hwyluso'r broses o gofrestru pobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl a siaradwyr ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r DGE, yn arbennig, wedi gwneud cryn dipyn i fynd i'r afael â phroblemau a brofir gan bobl â lefelau isel o lythrennedd wrth geisio cofrestru a phleidleisio.

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995

1.4 Ni sonnir yn benodol am gofrestru etholiadol yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DGA 1995). Fodd bynnag, mae'r Comisiwn, fel Llywodraeth y DU, yn ategu'r farn bod y broses gofrestru yn wasanaeth cyhoeddus.[2] O ganlyniad, cred y Comisiwn na ddylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol wahaniaethu yn erbyn pobl anabl drwy ddarparu gwasanaeth gwaeth i berson anabl nag y byddent i berson nad yw'n anabl.

1.5 Ers mis Rhagfyr 1996, bu'n anghyfreithlon i ddarparwr gwasanaeth wahaniaethu yn erbyn person anabl. Mae gwahaniaethu yn cynnwys:

- gwrthod darparu unrhyw wasanaeth i bobl anabl y mae'n ei ddarparu i bobl nad ydynt yn anabl
- darparu gwasanaeth o safon is i bobl anabl nag y mae'n ei ddarparu i bobl nad ydynt yn anabl

1.6 Ers 1 Hydref 1999, bu'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau newid arferion, polisïau a gweithdrefnau sy'n ei gwneud yn amhosibl neu'n afresymol o anodd i bobl anabl ddefnyddio gwasanaeth. Y llysoedd fydd yn penderfynu ar yr hyn sy'n gyfystyr â 'rhesymol', ond hyd nes bydd corff o gyfraith achosion, bydd hyn yn anodd ei ddiffinio.

---

[1] Y Comisiwn Etholiadol, *Equal access to democracy: report and recommendations* (Mehefin 2003).
[2] *The Government's Response to The Electoral Commission's Report: Voting for change – An electoral law modernisation programme* (Rhagfyr 2004).

1.7 Ers 1 Hydref 2004, bu'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau wneud addasiadau rhesymol i nodweddion ffisegol eu hadeiladau i oresgyn rhwystrau ffisegol i fynediad. Mae hyn yn cwmpasu llawer o'r adeiladau a ddefnyddir fel gorsafoedd pleidleisio, gan y'u defnyddir ar gyfer amrywiaeth eang o swyddogaethau eraill. Mae'r darpariaethau yn Rhan III o DGA 1995, sy'n cwmpasu'r gallu i fanteisio ar nwyddau a gwasanaethau, yn gymwys i wasanaethau etholiadol. Gellir dadlau a fyddai'r system pleidleisio drwy'r post yn cael ei hystyried yn 'ddewis amgen rhesymol' i ddarparu gwasanaethau etholiad yn uniongyrchol.

1.8 Mae DGA 1995 bellach wedi'i diwygio gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, sy'n gosod dyletswydd ar bob awdurdod sector cyhoeddus i hyrwyddo cydraddoldeb i bobl anabl a chyhoeddi cynllun cydraddoldeb i bobl anabl.

1.9 Rhydd y ddyletswydd cydraddoldeb i bobl anabl, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2006, ddyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried yr angen i wneud y canlynol, wrth gyflawni ei swyddogaethau:

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl anabl a phobl eraill
- dileu gwahaniaethu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf
- dileu achosion o aflonyddu ar bobl anabl sy'n ymwneud â'u hanableddau
- hyrwyddo agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl
- annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus
- cymryd camau i ystyried anableddau pobl anabl, hyd yn oed pan fydd hyn yn golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill

1.10 Dylai awdurdodau lleol ystyried y materion hyn wrth ystyried y gallu i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ystyried cynllun cydraddoldeb i bobl anabl eu hawdurdod a'u penododd wrth drafod y materion hyn a dylent sicrhau eu bod yn cynnal asesiad effaith anabledd ar unrhyw bolisïau neu weithdrefnau newydd.

Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976

1.11 Rhydd Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 ddyletswyddau amrywiol i awdurdodau lleol o ran cydraddoldeb hiliol. Y ddyletswydd gyffredinol a nodir yn Adran 71(1) o'r Ddeddf a'r Cod ymarfer statudol ar y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yw ystyried y tri amcan canlynol:

- Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal.
- Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

1.12 Mae'n ofynnol i gynghorau gyhoeddi cynllun cydraddoldeb hiliol. Mae hwn yn rhestru'r swyddogaethau a'r polisïau yr aseswyd eu bod yn berthnasol i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae'n rhaid i'r cynllun hefyd gynnwys esboniad o'r trefniadau ar gyfer monitro polisïau a gwasanaethau, gan ymgynghori arnynt ac asesu eu heffaith ar gydraddoldeb hiliol, ac ar gyfer monitro'r gweithlu ac arferion cyflogaeth allweddol. Dylai Swyddogion

Cofrestru Etholiadol ystyried y materion hyn wrth ystyried y gallu i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006

1.13 Cyflwynodd Adran 69 o DGE ddyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i annog pobl i gymryd rhan yn y broses etholiadol. Cred y Comisiwn y dylid ystyried bod sicrhau cyfle cyfartal i gymryd rhan mewn gweithdrefnau cofrestru yn rhan annatod o'r dasg o gyflawni'r ddyletswydd honno. Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau arbennig hefyd i ddogfennau etholiad, ac eithrio papurau enwebu a phapurau pleidleisio, gael eu cyhoeddi mewn ieithoedd a fformatau gwahanol.

Etholwyr anabl

Ystyriaethau cyffredinol

1.14 Wrth ystyried y gallu i gymryd rhan yn y broses cofrestru etholiadol, mae'n bwysig cofio nad oes gan bob person anabl yr un anghenion ac nad oes angen yr un math o gymorth arno. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau eu bod yn cael unrhyw hyfforddiant ar gydraddoldeb i bobl anabl a ddarperir gan y cyngor a'u penododd a dylent ddefnyddio eu barn a'u synnwyr cyffredin eu hunain wrth ymdrin â materion yn ymwneud â chymryd rhan yn y broses etholiadol. Oherwydd amrywiaeth awdurdodau lleol a'r mathau gwahanol o rwystrau i fynediad a geir, mae'n anodd darparu unrhyw ganllawiau sy'n addas i bawb.

1.15 Fel cam cyntaf tuag at deilwra eu cyfleusterau i anghenion lleol, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried demograffeg eu hardal: os yw eu hardal yn cynnwys llety preswyl sy'n darparu ar gyfer nam neu gyflwr penodol, gallent annog pobl i gofrestru drwy anfon ffurflenni a chanllawiau mewn fformat priodol. Ymhlith y fformatau amgen y gellid eu hystyried mae print bras, Braille, fersiwn hawdd ei ddarllen a sain. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gysylltu â rheolwyr llety, wardeiniaid neu etholwyr anabl eu hunain i ymholi ynglŷn â'u dewis fformat er mwyn peidio â sarhau neb. Efallai y bydd staff gwasanaethau cymdeithasol y cyngor yn gallu helpu gyda manylion cyswllt. Ni ddylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol wneud tybiaethau: er enghraifft, nid yw'r ffaith bod rhywun yn ddall o reidrwydd yn golygu y bydd yn gallu darllen Braille.

1.16 Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o etholwyr anabl yn byw mewn llety arbennig ac felly mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth ymhlith etholwyr anabl o gofrestru etholiadol yn gyffredinol a'r cymorth sydd ar gael i fodloni eu gofynion penodol. Dylid defnyddio amrywiaeth o sianelau i drosglwyddo'r wybodaeth hon, yn cynnwys yn ysgrifenedig, yn electronig, y cyfryngau arbenigol a'r radio lleol. Gall dibynnu ar un sianel yn unig eithrio rhai pobl anabl: er enghraifft, ni fyddai strategaeth sy'n dibynnu ar bosteri yn unig o fudd i lawer o etholwyr â nam ar eu golwg. Mae teilwra strategaethau cyhoeddusrwydd i anghenion lleol yn allweddol felly.

Mae Adran 2, ‘Gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd’, isod, yn gwneud argymhellion ar gyfer datblygu strategaethau cyhoeddusrwydd.

1.17 Efallai y bydd y gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau addysg yn gallu rhoi manylion grwpiau ymgyrchu a chymorth lleol sy’n gweithio gydag etholwyr anabl. Gallai’r Swyddog Cofrestru Etholiadol gysylltu â’r grwpiau lleol hyn i drafod y ffyrdd gorau o ledaenu unrhyw wybodaeth berthnasol.

1.18 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd fod yn ymwybodol y gall fod angen cymorth ychwanegol ar rai pobl anabl â mwy nag un nam.

Etholwyr dall ac etholwyr â nam ar eu golwg

1.19 Gall etholwyr dall ac etholwyr â nam ar eu golwg wynebu nifer o rwystrau wrth geisio cofrestru i bleidleisio.

1.20 Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol benderfynu cynnal ymgyrchoedd lleol ynglŷn â chofrestru sy’n benodol i’r rhai â nam ar eu golwg. Os byddant yn penderfynu gwneud hynny, dylent gynnwys grwpiau lleol, megis cymdeithasau pobl ddall a phobl rannol ddall a phapurau newydd llafar lleol. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i’r broses o gofrestru etholwyr â nam ar eu golwg mewn ffordd sy’n hygyrch iddynt hwy. Ymhlith y math o wybodaeth y gellid ei chynnwys mewn cyhoeddusrwydd i’r grŵp hwn o etholwyr mae:

- y math o ffurflen a gaiff ei hanfon
- ar ba adeg o’r flwyddyn y mae’n debygol o gael ei hanfon
- pa wybodaeth y bydd angen ei rhoi
- pryd y dylid dychwelyd y ffurflen ac arwyddocâd y dyddiad cau a bennwyd
- at bwy y dylid dychwelyd y ffurflen
- o ble y gellir cael help i gwblhau’r ffurflen

1.21 Yn ddelfrydol, fel rhan o unrhyw ymgyrch, dylid sicrhau bod ffurflenni cofrestru ar gael yn Braille, mewn fformat clywedol ac mewn print sy’n fwy o faint na’r maint print safonol. Mae maint ffont 16 pwynt o leiaf yn addas, er y bydd angen ei gynyddu ymhellach i rai pobl. Mae ffurflenni cofrestru treigl ar gael i’w harchebu gan y Comisiwn ar fformat sain, Braille a phrint bras.

1.22 Cred y Comisiwn y dylid dilyn canllawiau print clir Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB) ar gyfer pob ffurflen gofrestru. Ymhlith y rhain mae:

- defnyddio maint ffont 12 pwynt o leiaf, er bod RNIB yn argymell yn gryf y dylid defnyddio 14 pwynt
- defnyddio ffurfdeipiau fel Arial y mae pobl yn gyfarwydd â hwy, ac osgoi rhai arddulliedig neu addurniadol iawn
- defnyddio print bras neu led-fras yn hytrach na ffont ysgafn
- osgoi defnyddio llythrennau italig a phriflythrennau

- osgoi teitlau a phenawdau sydd wedi'u tanlinellu: yn hytrach, dylid chwyddo'r testun i ddynodi pennawd
- alinio testun i'r chwith a sicrhau bod y bylchau'n gyfartal
- sicrhau cyferbyniad da o ran lliw (e.e. teip du ar bapur gwyn neu felyn)
- defnyddio papur afloyw, gan y gall natur lachar papur gloyw beri i'r testun fod yn llai eglur
- sicrhau bod ansawdd y papur yn ddigonol, fel na ellir gweld unrhyw brint ar y cefn

1.23 Yn ogystal, dylid arddangos pwynt cyswllt canolog lle y gallai pobl ddall a phobl â nam ar eu golwg geisio cymorth, yn amlwg ar y ffurflen.

1.24 Gan na fydd rhai pobl â nam ar eu golwg yn gallu gweld unrhyw ffurflen argraffedig, waeth pa mor dda y'i gosodwyd, mae'n bwysig bod fformatau a gweithdrefnau amgen ar waith ar gyfer rhoi cymorth personol.

1.25 Gall llofnodi ffurflen fod yn her benodol i rywun â nam ar ei olwg. Yn amlwg, gall hyn fod yn rhwystr i lenwi ffurflenni cofrestru treigl, y mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n gwneud cais i gofrestru eu llenwi. Dylid cynnig help, os bydd angen. Gall defnyddio templed fod yn ddefnyddiol, er y gallai tywys llaw y person dall neu rannol ddall fod yn fwy priodol.

1.26 Gall y gofyniad i ddarparu llofnod ar geisiadau am bleidlais bost neu geisiadau am bleidlais drwy ddirprwy fod yn anodd i rai etholwyr â nam ar eu golwg ei fodloni. Os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon na all ymgeisydd lofnodi neu ddarparu llofnod cyson, gall ildio'r gofyniad i ddarparu llofnod.[3]

Am ragor o fanylion am geisiadau am bleidleisiau absennol ac ildiadau, gweler Rhan E, 'Pleidleisio absennol'.

1.27 Bydd yn well gan rai etholwyr â nam ar eu golwg ymdrin â'r swyddfa cofrestru etholiadol dros y ffôn neu'r e-bost ac felly dylai fod pob aelod o staff y ganolfan gyswllt wedi'i hyfforddi i ymdrin â'r math hwn o gyswllt yn effeithiol. Efallai y bydd yn well gan etholwyr eraill ymdrin â'r swyddfa cofrestru etholiadol yn uniongyrchol. Mae'n bwysig felly sicrhau bod derbynfeydd yn hygyrch, yn cynnwys arwyddion clir ac wedi'u goleuo'n dda, a darparu cymhorthion megis chwyddwydrau, lle y bo'n bosibl.

1.28 Dylai fod prosesau ar waith i sicrhau bod person â nam ar ei olwg yn gallu cadarnhau ei gofnod ar y gofrestr drwy gael rhywun yn y swyddfa cofrestru etholiadol i gyfleu'r wybodaeth ar lafar.

[3] Paragraffau 3(8), 4(5) a 7(11), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 9(7), 10(7) a 12(11), Gorchymyn Senedd yr Alban; Erthyglau 8(8), 9(5) a 12(12), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.

Etholwyr byddar

1.29 Mae'n bwysig cofio nad yw pawb sydd â nam ar ei glyw yn fyddar, ond yn yr un modd ni ddylai canfaswyr na staff swyddfa dybio y bydd person byddar yn gallu clywed yr hyn a gaiff ei ddweud, am ei fod yn gwisgo cymorth clyw.

1.30 Dylai canfaswyr a staff swyddfa wybod sut i gyfathrebu'n effeithiol â phobl fyddar a phobl â nam ar eu clyw. Dylent:

- Wynebu'r unigolyn yn uniongyrchol: os byddant yn edrych i ffwrdd ni fydd y person byddar yn gallu darllen eu gwefusau.
- Siarad yn glir ar gyflymdra arferol a pheidio â gweiddi.
- Sicrhau nad oes unrhyw oleuadau llachar y tu ôl iddynt a allai ei gwneud yn anodd gweld eu hwyneb.
- Defnyddio brawddegau cyfan yn hytrach nag ymatebion un gair: wrth ddarllen gwefusau, mae llawer o eiriau yn edrych yr un peth ac felly mae defnyddio brawddegau yn rhoi awgrymiadau cyd-destunol.
- Gofyn i'r person byddar neu drwm ei glyw ailadrodd ei hun nifer o weithiau os nad ydynt yn deall yr hyn y mae'n ei ddweud wrthynt. Mae pobl fyddar a thrwm eu clyw yn gyfarwydd â gorfod ailadrodd eu hunain a byddant yn falch eich bod yn gwneud yr ymdrech i gyfathrebu â hwy'n effeithiol.
- Newid brawddegau ychydig pan ofynnir i chi ailadrodd rhywbeth.
- Ceisio ysgrifennu pethau i lawr os nad ydynt yn eglur.
- Defnyddio ystumiau: er enghraifft, gall dangos maint a siâp gyda'u dwylo neu ategu cyfarwyddiadau drwy bwyntio fod yn ddefnyddiol iawn. Gall ystumiau'r wyneb helpu i gyfleu ystyr hefyd.

1.31 Efallai y bydd yn well gan rai etholwyr byddar ymdrin â staff y Swyddog Cofrestru Etholiadol dros yr e-bost, ffôn testun neu Typetalk a dylai aelodau o staff swyddfa gael eu hyfforddi er mwyn gallu ymdrin â'r math hwn o gyswllt. Yn y swyddfa, gallai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried gosod dolenni sain mewn derbynfeydd i hwyluso cyfathrebu. Mae mathau gwahanol o ddolenni sain a dylid ystyried pa un fyddai'r mwyaf priodol. Dylid hefyd hyfforddi staff ar sut i'w gweithredu.

Etholwyr sy'n cael trafferth symud a defnyddwyr cadeiriau olwyn

1.32 Rhydd DGA 1995 ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ddileu nodweddion ffisegol o'u safleoedd a allai rwystro'r sawl sy'n anabl rhag cael mynediad ac i ddarparu nodweddion cynorthwyo ychwanegol rhesymol.[4]

1.33 Dylai fod gan gynghorau gynllun hygyrchedd ar waith sy'n ystyried mynediad i brif fynedfa adeilad y swyddfa. Wrth asesu mynediad y tu mewn i'r swyddfa, dylid ystyried y canlynol:

[4] Adran 21D, DGA 1995 (fel y'i diwygiwyd).

- A yw'r drysau'n ddigon llydan i gadair olwyn drydanol neu sgwter symudedd?
- A oes unrhyw risiau neu rwystrau mewnol?
- A sicrhawyd nad oes rhwystrau yn y derbynfeydd?
- A oes lle i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn symud yn y dderbynfa?
- A oes seddi ychwanegol ar gael i'r sawl y gallai fod angen iddynt orffwys?
- A oes unrhyw fatiau wrth y drysau sy'n lefel â'r llawr? Os nad ydynt, a ellir eu symud oddi yno?
- A oes unrhyw beryglon eraill a allai beri i rywun faglu?
- A oes gorchudd gwrth-lithr addas ar y llawr?
- A fyddai'r llawr yn mynd yn llithrig yn wlyb?
- Os oes matiau symudol, llenni trwm sy'n llusgo ar y llawr, cymysgedd o garped a llawr pren gydag ymylon rhyngddynt neu loriau wedi'u sgleinio yn y safle, y gall pob un ohonynt fod yn beryglon posibl, a ellir gwneud unrhyw beth i'w symud neu eu gwella?

Pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy

1.34 Er bod yn well gan lawer o bobl, yn cynnwys pobl anabl, bleidleisio yn bersonol, bydd yn fwy cyfleus i eraill bleidleisio drwy'r post neu benodi dirprwy i bleidleisio ar eu rhan. Mae gan bobl anabl yr hawl i bleidleisio drwy ddirprwy am gyfnod penodol neu amhenodol.[5]

1.35 Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sicrhau bod cyhoeddusrwydd digonol o ran pleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r darpariaethau hyn ac i hysbysu pobl o sut i wneud cais. Gellid hefyd lunio ceisiadau am bleidleisiau absennol mewn amryw fformat er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gwblhau'r ffurflenni'n llwyddiannus.

1.36 Mae'r Comisiwn yn llunio ffurflenni cais i bleidleisio drwy'r post mewn nifer o fformatau, yn cynnwys ar dâp sain, yn Braille ac mewn print bras.

Mae taflenni'r Comisiwn ar gael i'w harchebu am ddim ac mae pob fformat, heblaw Braille, hefyd ar gael i'w lwytho i lawr fel PDF o wefan Do Politics y Comisiwn yn www.dopolitics.org.uk. Mae manylion archebu ar gael ar y wefan hefyd.

1.37 Gall y gofyniad i ddarparu llofnod ar geisiadau am bleidlais bost neu geisiadau am bleidlais drwy ddirprwy fod yn anodd i rai etholwyr anabl ei fodloni. Os yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn fodlon na all ymgeisydd lofnodi neu ddarparu llofnod cyson, gall ildio'r gofyniad i ddarparu llofnod. [6]

[5] Paragraff 3(3), Atodlen 4, DCyB 2000.
[6] Paragraffau 3(8), 4(5) a 7(11), Atodlen 4, DCyB 2000; Erthyglau 9(7), 10(7) a 12(11), Gorchymyn Senedd yr Alban; Erthyglau 8(8), 9(5) a 12(12), Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.

Mae rhagor o fanylion am geisiadau am bleidleisiau absennol ac ildiadau ar gael yn Rhan E, 'Pleidleisio absennol'.

Etholwyr ag anawsterau dysgu a lefelau isel o lythrennedd

1.38 Mae pobl ag anawsterau dysgu yn ei chael yn anos ac yn cymryd mwy o amser i ddysgu, deall a chyfathrebu na phobl nad ydynt yn anabl. O ganlyniad, bydd gan nifer o bobl ag anawsterau dysgu lefelau isel o lythrennedd neu gall gymryd mwy o amser iddynt ddarllen y wybodaeth a roddir. Fodd bynnag, nid yw lefelau isel o lythrennedd yn benodol i bobl ag anawsterau dysgu yn unig gan fod llawer o ffactorau eraill a all beri i rywun fod ag anawsterau darllen ac ysgrifennu.

1.39 Mae'n bwysig cofio bod pawb yn wahanol ac y gall amodau amrywio. Dylid osgoi ceisio cael un ateb i bawb. Mae'n bosibl mai dim ond ychydig o help fydd ei angen ar bobl ag anhawster dysgu ysgafn, tra bydd angen mwy o gymorth ar eraill, yn arbennig os oes ganddynt anableddau corfforol eraill hefyd.

1.40 Efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth ar rai pobl ag anawsterau dysgu a lefelau isel o lythrennedd i ddeall y broses gofrestru ac i symud drwy'r ffurflenni. Gall taflenni â chanllawiau darluniadol a ysgrifennwyd mewn iaith glir helpu hefyd.

Mae'r Comisiwn wedi llunio Canllaw Hawdd i bleidleisio, sy'n cynnwys adran ar gofrestru. Mae ar gael i'w lwytho i lawr o wefan Do Politics y Comisiwn yn www.dopolitics.org.uk. Mae manylion archebu ar gael ar y wefan hefyd.

1.41 Mae'n bwysig bod staff swyddfa a staff cyswllt yn cael eu hyfforddi i ymdrin ag ymholiadau gan bobl ag anawsterau dysgu a chan bobl sy'n meddu ar sgiliau darllen ac ysgrifennu lefel isel. Yn arbennig, dylid sicrhau eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd siarad yn glir â phobl ag anhawster dysgu ac, os bydd angen, dylent fod yn barod i ailadrodd y wybodaeth iddynt.

1.42 Gall canllawiau hawdd eu darllen gydag amrywiaeth o luniau, ffotograffau a symbolau a ddefnyddir yn gyffredin fod o fudd i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl fel ei gilydd. Mae nifer o sefydliadau, megis Mencap, sydd â phrofiad o lunio llenyddiaeth hawdd ei darllen ac efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am gysylltu â hwy am gyngor.

1.43 Mae agweddau staff yn allweddol. Mae amynedd a dealltwriaeth yn bwysig wrth gyfathrebu â phob aelod o'r cyhoedd, ond yn arbennig ag etholwyr anabl: os caiff person anabl brofiad negyddol, gallai hyn ei atal rhag cofrestru yn y dyfodol.

Etholwyr â chyflyrau iechyd meddwl

1.44 Gall rhai pobl anabl â chyflwr iechyd meddwl fod â namau neu gyflyrau eraill hefyd, yn cynnwys anawsterau dysgu, sy'n gwneud y broses gofrestru a symud drwy'r ffurflenni yn anos. Gall taflenni â chanllawiau darluniadol a ysgrifennwyd mewn iaith glir helpu hefyd.

Mae'r Comisiwn wedi llunio Canllaw Hawdd i bleidleisio, sy'n cynnwys adran ar gofrestru. Mae ar gael i'w lwytho i lawr o wefan Do Politics y Comisiwn yn www.dopolitics.org.uk. Mae manylion archebu ar gael ar y wefan hefyd.

1.45 Efallai y bydd angen esbonio'r broses i bobl â chyflwr iechyd meddwl sawl gwaith, gan y gallent ei chael yn anodd canolbwyntio ac amsugno swm sylweddol o wybodaeth newydd ar unrhyw adeg. Gall rhai pobl â chyflwr iechyd meddwl hefyd ei chael yn anodd gwneud penderfyniadau dibwys, yn ôl pob golwg, fel cofrestru i bleidleisio. Mae agwedd staff sy'n ymdrin â'r etholwyr hyn yn allweddol ac ni ddylid rhoi pwysau ar yr unigolyn: bydd rhoi pwysau arno yn gwaethygu'r sefyllfa, gan y gallai'r unigolyn â chyflwr iechyd meddwl fynd yn bryderus ac yn ofidus. Yn hytrach, dylai'r staff esbonio'r broses gofrestru cymaint o weithiau ag y bo angen a gofyn iddo ddychwelyd eto yn ddiweddarach os bydd angen.

Ffynonellau cyngor

1.46 Mae canllawiau a chyngor ar faterion yn ymwneud â chymryd rhan yn y broses etholiadol ar gael gan amrywiaeth o sefydliadau, y rhestrir rhai ohonynt isod. Yn ogystal, efallai y bydd grwpiau lleol ar gyfer etholwyr anabl a phobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn gallu cynnig cyngor a chymorth hefyd. Mae'n bosibl y bydd gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau addysg y cyngor fanylion cyswllt ar gyfer y grwpiau lleol hyn a byddant yn gallu rhoi cyngor ar y ffordd orau o ymdrin ag etholwyr ag anableddau. Efallai y bydd ganddynt ddeunyddiau hyfforddi defnyddiol hefyd y gellir eu haddasu i'w defnyddio gan ganfaswyr. Gellid cael cyngor proffesiynol gan archwilydd mynediad hefyd.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

1.47 Daeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i rym yn lle'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006 yn gorff anadrannol a ariennir gan y cyhoedd sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hawliau dynol ac yn annog arfer da gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'n dwyn ynghyd waith y comisiynau blaenorol ac yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban. Am ragor o wybodaeth, gweler www.equalityhumanrights.com.

Ymgyrch Plain English

1.48 Mae'r Ymgyrch Plain English yn garfan bwyso annibynnol sydd â'r nod o ysgrifennu gwybodaeth gyhoeddus mewn Saesneg clir. Mae'r Ymgyrch yn cynnig gwasanaethau golygu yn ogystal â'r 'Crystal Mark' ar gyfer dogfennau

a gymeradwywyd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.plainenglish.co.uk.

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar (RNID)
1.49 Mae RNID yn cynrychioli pobl fyddar a thrwm eu clyw yn y DU. Gallant roi gwybodaeth am gyfathrebu â phobl fyddar. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.rnid.org.uk.

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (RNIB)
1.50 Mae RNIB yn cynnig gwybodaeth, cymorth a chyngor i bobl â nam ar y golwg yn y DU. Mae RNIB wedi llunio canllawiau clir i wella mynediad ar gyfer pobl ddall a rhannol ddall.

1.51 Gall RNIB hefyd gynnig canllawiau ar lunio recordiadau tâp, Braille, e-destun a gwefannau hygyrch. Mae rhagor o wybodaeth am y materion hyn ar gael yn www.rnib.org.uk.

Scope
1.52 Mae Scope yn sefydliad sy'n gweithio ledled Cymru a Lloegr ar gyfer pobl anabl. Yng Nghymru, fe'i gelwir yn Scope Cwmpas Cymru. Ei nod yw sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl. Mae Scope yn rhedeg yr ymgyrch Etholiadau'n Eithrio i sicrhau bod etholiadau'n hygyrch i bleidleiswyr anabl a lluniwyd adroddiadau ar bob etholiad cyffredinol Senedd y DU ers 1992. Mae Scope hefyd wedi llunio amrywiaeth o ganllawiau i staff sy'n gysylltiedig ag etholiadau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.scope.org.uk.

Capability Scotland
1.53 Mae Capability Scotland yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phobl anabl i wella'r gallu i gymryd rhan mewn etholiadau yn yr Alban ac yn annog pobl anabl i bleidleisio. Mae hefyd yn cynnal arolygon o bleidleiswyr anabl a'u gofalwyr ar ôl pob etholiad a drefnwyd. Er nad ydynt yn canolbwyntio ar y broses gofrestru, mae ei holiaduron yn ymdrin â pha mor hawdd yw'r broses o gofrestru fel pleidleisiwr absennol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.capability-scotland.org.uk.

Mencap
1.54 Mae Mencap yn elusen yn y DU sy'n ymgyrchu dros hawliau cyfartal i blant ac oedolion ag anabledd dysgu. Mae ganddi brofiad hefyd o lunio llenyddiaeth hawdd ei darllen. Ceir rhagor o fanylion ar ei gwefan www.mencap.org.uk.

Etholwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg

1.55 Er na all pawb sy'n perthyn i gymuned lleiafrif ethnig bleidleisio oherwydd cyfyngiadau yn ymwneud â dinasyddiaeth ar yr etholfraint, mae'n deg tybio y gall cyfran fawr gofrestru am eu bod yn ddinasyddion cymwys y Gymanwlad, yn ddinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd neu am eu bod wedi dod yn ddinasyddion Prydeinig.

1.56 Ni fydd llawer o'r rhai sy'n gymwys i gofrestru yn cael problemau o ran cyfathrebu'n Gymraeg neu'n Saesneg, ond mae'n bosibl na fydd rhai yn siarad Cymraeg neu Saesneg o gwbl neu efallai y byddant yn cael anawsterau i ddarllen neu ysgrifennu'n Gymraeg neu'n Saesneg. Gallai hyn beri problemau wrth gofrestru i bleidleisio, neu wrth gwblhau'r ffurflen ganfasio i gadarnhau nad oes unrhyw un sy'n byw yn y cyfeiriad hwnnw yn gymwys i gofrestru.

1.57 Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cofrestru yw'r cam cyntaf i sicrhau bod y nifer fwyaf posibl o'r bobl gymwys hynny sy'n siarad ieithoedd eraill yn cofrestru. Efallai fod crynhoad o gymunedau lleiafrifoedd ethnig penodol yn ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Yn y cyfryw achosion, dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried cysylltu â grwpiau cymunedol lleol perthnasol, gan y gallent helpu eu haelodau i gwblhau'r ffurflen gofrestru a'u hysbysu o'r broses ganfasio a chofrestru yn fwy cyffredinol.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i godi ymwybyddiaeth ymhlith siaradwyr ieithoedd eraill a grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar gael yn Adran 2, 'Gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd', isod.

1.58 Mae'r Comisiwn yn darparu ffurflenni cofrestru treigl mewn amrywiaeth o ieithoedd (yn cynnwys Arabeg, Bengali, Ffrangeg, Gwjarati, Punjabeg, Pwyleg, Tsieinëeg ac Wrdw), ar fformat copi caled ac i'w llwytho i lawr ar ffurf PDF o'r wefan Do Politics yn www.dopolitics.org.uk. Mae manylion archebu ar gyfer holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a ffurflenni'r Comisiwn ar gael ar y wefan hefyd.

1.59 Fel ffurflen ragnodedig, ni ddylid cyfieithu'r ffurflen ganfasio. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol roi copïau o ffurflenni cofrestru treigl y Comisiwn wedi'u cyfieithu i ganfaswyr sy'n gwneud ymholiadau o dŷ i dŷ.

1.60 Isod, ceir ychydig enghreifftiau o ran deunydd wedi'i gyfieithu a chyhoeddusrwydd ar gyfer cofrestru etholiadol y gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn awyddus i'w hystyried:

- Ceisiwch recriwtio canfaswyr sy'n siarad yr ieithoedd a siaredir yn y cymunedau y byddant yn gweithio ynddynt. Bydd hyn yn eu galluogi i ateb unrhyw gwestiynau y gallai pobl eu holi ar garreg y drws.
- Mae sesiynau hyfforddi i staff canfasio yn hanfodol a dylent ymdrin â chofrestru pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- Dylid rhoi nodiadau canllaw i staff cofrestru etholiadol a fydd yn canfasio mewn ardaloedd lle ceir cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Dylai'r rhain roi cyngor ar genedligrwydd a'r etholfraint a sut i ymdrin â chwestiynau gan aelwydydd lleiafrifoedd ethnig. Mae'r Comisiwn wedi datblygu llawlyfr cyfarwyddyd i ganfaswyr sydd ar gael i'w lwytho i lawr o www.comisiwnetholiadol.org.uk.
- Dosbarthwch daflenni i ategu ffurflenni cofrestru etholiadol yn yr ieithoedd a siaredir gan gymunedau lleol, yn esbonio beth yw'r ffurflen a sut i'w chwblhau.

- Defnyddiwch ‘daflen gyfieithu’ i esbonio i breswylwyr pam bod y canfasiwr yn galw heibio – mae’r Comisiwn wedi darparu datganiad o ddiben y canfasiad blynyddol y gellir ei lwytho i lawr yn Arabeg, Bengali, Ffrangeg, Gwjarati, Punjabeg, Pwyleg, Tsieinëeg ac Wrdw o www.comisiwnetholiadol.org.uk.
- Sicrhewch fod ffurflenni cofrestru treigl ar gael yn yr ieithoedd a siaredir gan gymunedau lleol.
- Gall taflenni â chanllawiau darluniadol a ysgrifennwyd mewn iaith glir hefyd helpu amrywiaeth o bobl, yn cynnwys y rhai ag anawsterau dysgu a lefelau isel o lythrennedd, yn ogystal â’r rhai sy’n siarad Saesneg fel ail iaith.
- Ystyriwch gyhoeddusrwydd arbenigol ar y broses gofrestru dreigl a’r canfasiad a pham y dylai pobl gofrestru. Gellir cynnwys hwn mewn unrhyw bapur newydd a ddosberthir ymhlith cymunedau lleiafrifoedd ethnig a hefyd ar orsafoedd radio lleol ac ym mhapur newydd y cyngor. Gellid darparu posteri a thaflenni i ganolfannau cymunedol, meddygfeydd, temlau a mosgiau lleol hefyd. Gellid hefyd ddefnyddio cyhoeddiadau cymunedol lleol megis cylchlythyrau i grwpiau lleiafrifoedd penodol.
- Gellid dosbarthu hysbysiadau atgoffa i gartrefi nad ydynt yn ymateb hefyd mewn ieithoedd ar wahân i’r Gymraeg a’r Saesneg.
- Ystyriwch ddarparu gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn i ganfaswyr. Mae’r gwasanaethau hyn yn galluogi sgwrs deirffordd gan ddefnyddio ffôn symudol (neu linell daear), rhwng canfasiwr, cyfieithydd a phreswylydd.
- Gellid gofyn i’r tîm cyfieithu yn y cyngor sy’n penodi, lle ceir tîm o’r fath, gysylltu ag unrhyw ddeiliaid cartrefi sy’n cael anhawster i ddeall y ffurflen gofrestru.
- Ystyriwch adael y gofrestr etholwyr mewn mannau y bydd aelodau o’r cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn mynd iddynt, er y dylech gofio’r darpariaethau statudol ar gyfer edrych ar y gofrestr lawn o dan oruchwyliaeth.

Canolfannau rheoli galwadau

1.61 Mae llawer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno canolfannau cyswllt neu ganolfannau rheoli galwadau fel y pwynt cyswllt cyntaf i breswylwyr sy’n ffonio’r cyngor. Efallai y bydd rhai awdurdodau am eu defnyddio at ddibenion cofrestru. Dylai’r Swyddog Cofrestru Etholiadol sicrhau bod y rhai sy’n gweithio mewn canolfannau cyswllt neu ganolfannau rheoli galwadau yn cael eu hyfforddi i ymdrin ag ymholiadau cofrestru gan bob math o bobl, yn cynnwys pobl anabl, pobl â chyflwr iechyd meddwl, pobl â nam ar eu lleferydd, pobl ag anawsterau dysgu a phobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Dylunio ffurflenni etholiadol

1.62 Mae’r broses gofrestru yn un sy’n seiliedig ar ffurflenni, yn bennaf. Os na all etholwyr posibl gwblhau ffurflenni a chofrestru, cânt eu hamddifadu o’u hawl i bleidleisio. Gall pobl brofi anawsterau o ran cwblhau ffurflenni cofrestru etholiadol am amrywiaeth o resymau: er enghraifft, efallai na allant weld yr

ysgrifen ar y ffurflen neu efallai na fyddant yn deall yr hyn y mae'r ffurflen yn gofyn iddynt wneud.

1.63 Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn defnyddio ystod eang o ddyluniadau ffurflenni gwahanol yn arbennig o ran maint a math y ffont i'w ddefnyddio, y cynllun, y defnydd o liw ac iaith. Nod y paragraffau canlynol yw darparu 'pecyn cymorth' i Swyddogion Cofrestru Etholiadol i'w ddefnyddio wrth ddylunio ffurflenni etholiadol.

1.64 Caiff ffurflenni a ddefnyddir i gofrestru eu dosbarthu naill ai fel:

- ffurflenni rhagnodedig – lle cânt eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth, e.e. y ffurflen ganfasio, neu
- ffurflenni nad ydynt wedi'u rhagnodi – lle mae'r ddeddfwriaeth ond yn nodi pa wybodaeth a geisir, e.e. y ffurflen gofrestru dreigl, ac nid y ffurf y dylid ei chyflwyno

1.65 Er nad yw ffurflenni cais am bleidlais absennol wedi'u rhagnodi, yn ôl y rheoliadau, mae'n rhaid i'r llofnod ymddangos yn erbyn cefndir o bapur gwyn heb linellau sy'n 3cm o hyd ac yn 2cm o uchder o leiaf a bod y dyddiad geni wedi'i gyflunio fel a ganlyn, [d][d] [m][m] [b][b][b][b].[7]

1.66 Yr unig ffurflen ragnodedig a ddefnyddir at ddibenion cofrestru yw'r ffurflen ganfasio. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu rhywfaint o amrywiad cyfyngedig, gan y gellir defnyddio ffurflen 'i'r un perwyl' hefyd.[8] Nid oes cyfraith achosion ar faint o ryddid a ganiateir o ran ffurflenni rhagnodedig. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried a oes angen iddynt aralleirio a pheidio â dilyn fformat y ffurflenni rhagnodedig am reswm dilys cyn gwneud hynny.

1.67 Yn gyffredinol, dylid cymhwyso'r ddwy egwyddor ganlynol wrth ystyried unrhyw achos o wyro oddi wrth ffurflenni rhagnodedig:

- mae p'un a fydd amrywio ffurflen ragnodedig yn gyfreithlon yn dibynnu ar ffeithiau a graddau pob achos, gan lunio cymhariaeth rhwng y ffurflen ragnodedig a'r ffurflen benodol a ddefnyddir
- dylai unrhyw amrywiad ar y ffurflen ragnodedig gyflawni'r un diben â'r ffurflen ragnodedig, nid yn gyffredinol yn unig ond mewn perthynas â chyfleu manylion y gyfraith

1.68 Noda'r canlynol ystyr yr egwyddorion hyn yn ymarferol:

- **A yw'n gyfreithlon rhoi mwy o wybodaeth i etholwyr ar ffurflen nag a geir ar y ffurflen ragnodedig a nodir yn y ddeddfwriaeth?** Gallai hyn fod yn gyfreithiol mewn rhai amgylchiadau, yn arbennig lle bo'r gyfraith yn caniatáu amrywiad yn benodol. Mae hyn ar yr amod nad oes unrhyw beth yn y wybodaeth ychwanegol yn anghyson â'r wybodaeth y

[7] Rheoliad 51(3A), RhCyB 2001; Paragraff 1(1A), Atodlen 3, Gorchymyn Senedd yr Alban; Paragraff 1(3), Atodlen 1, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CyB) 2007.
[8] Adran 10(4), DCyB 1983.

mae'n rhaid ei rhoi neu y gofynnwyd amdani. Po fwyaf gwan yw'r cyswllt rhwng y wybodaeth ychwanegol a diben y ffurflen, y lleiaf tebygol ydyw o fod yn gyfreithlon.

- **A yw'n gyfreithlon gofyn am fwy o wybodaeth gan etholwyr nag y gofynnir amdani ar y ffurflen ragnodedig?** Mae hyn yn debygol o fod yn anghyfreithlon oni esbonnir nad oes angen rhoi'r wybodaeth a geisir (h.y. mae cwblhau'r rhannau hyn o'r ffurflen yn ddewisol). Hyd yn oed bryd hynny, po fwyaf gwan yw'r cyswllt rhwng y cais a diben y ffurflen, y lleiaf tebygol y bydd o fod yn gyfreithlon, yn arbennig lle nad oes darpariaeth benodol i amrywio yn y ddeddfwriaeth.

- **A yw'n gyfreithlon hepgor cwestiynau, datganiadau neu geisiadau am wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen ragnodedig?** Ym marn y Comisiwn, nid yw'n gyfreithlon hepgor unrhyw wybodaeth o'r fath, p'un a oes darpariaeth benodol dros amrywio ai peidio. Gellir addasu'r ffordd y caiff cwestiynau neu ddatganiadau eu geirio o dan rai amgylchiadau, yn arbennig lle ceir darpariaeth benodol i amrywio, ond nid i'r fath raddau lle caiff y cwestiwn neu'r datganiad, neu elfen bwysig o'r cwestiwn neu'r datganiad, eu heithrio neu lle caiff eu hystyr neu eu diben eu haddasu o ganlyniad.

1.69 Pan fwriedir rhagnodi ffurflenni etholiadol newydd neu ffurflenni etholiadol wedi'u haddasu, mae'r Comisiwn yn annog yr adran berthnasol o'r llywodraeth i sicrhau bod y cynllun yn addas i ddefnyddwyr ac y'u hysgrifennir gan ystyried y meini prawf iaith glir.

Atgoffir gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru fod darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg ar sail gyfartal i'r Saesneg. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y gallai fod yn rhaid i ddeunyddiau etholiad a gynhyrchir ac a gyhoeddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Dylai pob awdurdod lleol ymgynghori â'i gynllun Iaith Gymraeg statudol er mwyn penderfynu pa gyhoeddiadau neu ddeunyddiau y bydd angen eu cynhyrchu mewn fformat dwyieithog. Fel mater o arfer da, argymhellir y dylid cynhyrchu ffurflenni cofrestru a chanfasio unigol, yn ogystal â cheisiadau am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy, yn ddwyieithog. Mae ymagwedd o'r fath yn cynnig dewis o iaith i'r cyhoedd wrth ymdrin â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ac yn atgyfnerthu'r egwyddor bod cydraddoldeb iaith yn rhan annatod o'r agenda gydraddoldeb yng Nghymru.

Materion sylfaenol o ran dylunio ffurflenni

1.70 Pan fydd angen i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ddylunio ffurflen, dylid dilyn y canllawiau cyffredinol canlynol. Yn ogystal â bod yn gymwys i ffurflenni a ddefnyddir mewn perthynas â chofrestru etholiadol, gellid eu cymhwyso'n ehangach hefyd o bosibl.

1.71 **Dylid ystyried bod dyluniad a chynllun yn rhan annatod o'r cyfathrebu a'u bod yn helpu pobl i symud drwy'r ffurflenni.** Dylai'r dyluniad fod yn effeithiol wrth arwain y defnyddiwr drwy'r wybodaeth. Gellid defnyddio lluniau a symbolau clir i atgyfnerthu gwybodaeth, yn arbennig am brosesau. Os felly, dylai'r testun ymddangos wrth ymyl neu o dan unrhyw lun ategol. Ni ddylid byth ysgrifennu ar draws y llun ei hun.

- Gall defnyddio penawdau clir (wedi'u rhifo os yw'n briodol) 'gyfeirio' pobl at yr adrannau gwahanol o'r cyfathrebu, yn yr un modd â blychau gwyn lle bo angen i'r etholwr roi gwybodaeth.
- Ni ddylai'r ffurflen fod yn anniben, a all ddigwydd pan fydd gormod o destun a gormod o gyfarwyddiadau ar wyneb y ffurflen. Mae'r argraff gyntaf y bydd y ffurflen yn ei chreu yn hanfodol gan y gall effeithio ar y tebygolrwydd y bydd y derbynnydd yn cwblhau neu na fydd yn cwblhau'r ffurflen.

1.72 **Defnyddiwch ffont clir sy'n hawdd ei ddarllen.** Defnyddir Arial neu ffurf-deip tebyg, sy'n 12 pwynt o leiaf, gan y Comisiwn ar gyfer dogfennau cyhoeddus. Mae'r canllawiau hyn yn adlewyrchu'r argymhellion a amlinellwyd gan RNIB ar gyfer sicrhau bod gwybodaeth yn haws i bobl sy'n rhannol ddall ei darllen. Atgynhyrchir canllawiau print clir llawn RNIB ar wefan RNIB yn www.rnib.org.uk.

1.73 **Rhowch gyhoeddusrwydd i fanylion cyswllt.** Drwy roi cyhoeddusrwydd i fanylion cyswllt, bydd yn haws manteisio ar y gwasanaeth. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys cymaint o ddulliau o gysylltu â phosibl i sicrhau mynediad llawn. Mae gan lawer o awdurdodau lleol rif llinell gymorth benodedig bellach, yn arbennig yn ystod etholiadau. Dylid cynnwys rhif ffacs, gwefan a/neu gyfeiriad e-bost hefyd. Lle y bo'n briodol, dylid cysylltu hyn â chyfarwyddiadau clir o ran pa ffurflenni y gellir eu dychwelyd, er enghraifft drwy'r post, yn bersonol, neu dros y ffacs.

1.74 **Hyrwyddwch y ffaith bod cyfieithiadau, Braille, print bras a thapiau sain ar gael.** Yn ddelfrydol, dylai pob ffurflen a ddylunnir i'w defnyddio gan y cyhoedd fod ar gael mewn ieithoedd a ddefnyddir gan gyfran sylweddol o'r gymuned leol. Mae ffurflenni cofrestru treigl a ffurflenni pleidleisio drwy'r post ar gael gan y Comisiwn yn Gymraeg a Saesneg ac mewn amrywiaeth o ieithoedd eraill, yn ogystal ag mewn Braille, mewn print bras ac ar dâp sain. Waeth pa fformatau sydd ar gael yn lleol, mae'n bwysig bod eu hargaeledd yn cael ei nodi'n glir ar y fersiwn 'safonol' o'r ffurflen. Dylai'r cyfeirio hwn fod ar gael mewn print bras ac yn yr ieithoedd perthnasol: nid oes fawr o bwynt llunio taflenni yn Wrdw os yw'r unig gyhoeddusrwydd o'u bodolaeth yn Saesneg.

1.75 **Dylid cynnwys nodiadau canllaw os oes angen.** Dylai'r nodiadau canllaw fod wedi'u dylunio i helpu pobl i gwblhau ffurflenni'n gyflym gyda chyn lleied o anghyfleustra â phosibl. Dylai'r nodiadau osgoi gwybodaeth sydd yno at ddibenion swyddogol yn unig. Lle y bo'n bosibl, dylai'r nodiadau ddefnyddio lluniau, ffotograffau, diagramau, rhifau sy'n adlewyrchu'r ffurflen, neu godau lliw i ddangos pa gamau sy'n ofynnol.

1.76 **Gofynnwch am wybodaeth gyswllt, megis rhif ffôn yn ystod y dydd/cyfeiriad e-bost.** Gall hyn gynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau, gan y gall ffonio neu anfon neges e-bost helpu i ddatrys ymholiad yn gyflymach na gorfod anfon llythyr neu ddychwelyd y ffurflen ac yna aros am ymateb. Dylai'r ffurflen neu ei nodiadau egluro pam y gofynnir am wybodaeth gyswllt ac nad oes rhaid i'r sawl sy'n cwblhau'r ffurflen roi'r wybodaeth hon.

1.77 **Defnyddiwch Saesneg clir.**[9] Lle nad yw'r ffurflenni wedi'u rhagnodi, dylid ystyried sut y mynegir ceisiadau am wybodaeth. Gall yr Ymgyrch Plain English ddarparu canllawiau ar ddefnyddio iaith hygyrch ac mae'n gweithredu cynllun 'Crystal Mark' i gymeradwyo testunau mewn Saesneg clir. Am ragor o wybodaeth ewch i www.plainenglish.co.uk/guides.htm. Gall defnyddio Saesneg clir hwyluso'r broses gyfieithu hefyd. Lle bo'r ffurflenni'n rhagnodedig, gellir hefyd ystyried newid yr union eiriau a ddefnyddir yn y ffurflenni enghreifftiol, er y dylid gofyn am gyngor cyfreithiol bob amser i sicrhau nad yw'r newidiadau testunol a fwriedir yn gwyro'n sylweddol o'r gofynion cyfreithiol.

1.78 **Ystyriwch ddefnyddio rhestr wirio lle bo angen i'r etholwr gymryd camau gweithredu**, naill ai ar y ffurflen neu ar ddeunydd ysgrifennu cysylltiedig, megis y tu mewn i fflap yr amlen ddychwelyd. Mewn perthynas â'r ffurflen ganfasio, er enghraifft, gallai rhestr wirio gynnwys nodyn atgoffa i ddeiliad y cartref gadarnhau ei fod wedi llofnodi'r datganiad a'i fod wedi holi pawb a enwir ar y ffurflen a ydynt am eithrio rhag cynnwys eu manylion ar y gofrestr wedi'i golygu.

1.79 **Ystyriwch ofynion gweinyddol.** Os bwriedir sganio'r ffurflenni, mae'n bwysig eu bod yn cael eu dylunio gyda hyn mewn golwg, a bod ffurflenni drafft yn cael eu profi.

1.80 **Gofynnwch i gydweithwyr neu grwpiau rhanddeiliaid roi cynnig ar ffurflenni â dyluniad newydd.** Os oes unrhyw ffurflenni etholiadol wedi cael eu hadolygu a'u diwygio, gofynnwch i gydweithwyr mewn adrannau eraill yn yr awdurdod lleol sy'n penodi ac unrhyw sefydliadau rhanddeiliaid roi cynnig arnynt fel y bo'n briodol. Gallai hyn helpu i nodi unrhyw broblemau gyda'r ffurflenni. Gallai fod yn ddefnyddiol i staff cofrestru etholiadol gynnwys pobl anabl ar ddechrau'r broses, fel y gellir lleihau rhwystrau i fynediad o'r cychwyn cyntaf. Dylid gofyn am gyngor arbenigol gan adrannau perthnasol o'r awdurdod lleol sy'n penodi.

1.81 **Adolygwch eich prif ffurflenni.** Cofnodwch unrhyw broblemau sy'n codi a manteisio ar y cyfleoedd i wneud newidiadau ar raddfa fach. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd yn argymell cynnal adolygiadau 'ailbeiriannu' ar raddfa fawr bob tair i bum mlynedd.[10] Sefydlir y mathau hyn o adolygiadau gydag amcan pendant a'u nod yw gweithredu'r amcan hwnnw. Bydd hyn yn aml yn arwain at addasu dyluniad cyffredinol y ffurflen mewn modd mwy sylweddol. Dylai'r adolygiadau gwmpasu'r canlynol o leiaf:

---

[9] Caiff 'Plain English' ei ddiffinio gan yr Ymgyrch Plain English fel iaith y gall y gynulleidfa fwriadedig ei deall a gweithredu arni ar ôl ei darllen unwaith.

[10] Gweler www.nao.org.uk/publications/nao_reports/02-03/02031145.pdf.

- dyluniad cwestiynau'r ffurflen
- y gydberthynas rhwng y ffurflen ac unrhyw nodiadau canllaw neu daflenni
- sut mae cwsmeriaid yn cael gafael ar ffurflenni
- y gydberthynas rhwng ffurflenni papur a ffurflenni electronig

Ysgrifennu ar gyfer y we

1.82 Mae gwybodaeth a ffurflenni cofrestru ar gael yn gyffredin i'w llwytho i lawr o wefannau'r cyngor, ac felly mae'n bwysig ystyried sut y caiff gwybodaeth a ffurflenni eu cyflwyno ar-lein.

1.83 Mae gwefannau hygyrch o fudd i bobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl fel ei gilydd: po fwyaf hygyrch yw gwefan, y mwyaf hawdd ydyw i'w defnyddio a'r mwyaf y bydd pobl yn gallu ei defnyddio. Gall gwefannau hygyrch hefyd helpu defnyddwyr gyda chysylltiadau modem araf, cyfrifiaduron hŷn a phorwyr gwe sydd ond yn darllen testun.

1.84 Y peth allweddol i'w gofio wrth gyflwyno deunydd ar y rhyngrwyd yw bod pobl yn darllen gwefannau yn wahanol i ddeunyddiau argraffedig. Mae pethau penodol y mae angen eu hystyried wrth roi gwybodaeth a ffurflenni ar-lein. Isod, ceir ychydig ganllawiau cyffredinol ar greu gwefannau hygyrch sy'n hawdd eu defnyddio. Mae'r rhain yn seiliedig ar Ganllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe Consortiwm y We Fyd-Eang[11] ac ar gyngor a roddwyd gan nifer o grwpiau anabledd. Nid yw'r canllawiau'r cwmpasu'r manylion technegol ar gyfer dylunio gwefan hygyrch, ond gellir gweld y rhain ar wefan Menter Hygyrchedd Gwe Consortiwm y We Fyd-Eang yn www.w3.org/TR/WCAG10/ ac www.w3.org/TR/WCAG20/.

1.85 **Rhowch y cynnwys perthnasol ar frig y dudalen.** Mae astudiaeth wedi dangos bod pobl yn brasddarllen gwefannau ac yn tueddu i'w darllen mewn patrwm siâp F.[12] Golyga hyn eu bod yn canolbwyntio ar hanner uchaf y dudalen ac yna'n sgrolio i lawr i chwilio am wybodaeth berthnasol drwy sganio dechrau pob llinell yn unig.

1.86 **Sicrhewch fod yr holl destun yn glir ac y gellir newid ei faint.** Bydd hyn yn ei wneud yn haws i bobl â nam ar y golwg ei ddarllen. Dylid defnyddio maint ffont 12 pwynt o leiaf.

1.87 **Dewiswch liwiau sy'n darparu llawer o gyferbynnedd.** Fel gyda thestun argraffedig, po fwyaf y cyferbynnedd, y mwyaf dealladwy y bydd y testun.

1.88 **Cofiwch y gallai rhai darllenwyr fod yn lliwddall.** Er enghraifft, ni fydd rhai defnyddwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng testun coch a chefndir gwyrdd. Mae Vischeck yn offeryn am ddim sy'n efelychu effeithiau gwahanol fathau o

[11] Mae Consortiwm y We Fyd-Eang yn gonsortiwm rhyngwladol lle bo aelod-sefydliadau a'r cyhoedd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu safonau gwe.
[12] Gweler, er enghraifft, www.useit.com/alertbox/reading_pattern.html.

ddallineb lliw ar liwiau gwefannau. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.vischeck.com/vischeck/vischeckURL.php.

1.89 **Peidiwch â dibynnu ar liw yn unig i gyfleu gwybodaeth.** Gall lliw helpu i gyfeirio at wahanol rannau o dudalen os caiff ei ddefnyddio'n gyson, ond peidiwch â defnyddio eitemau fel botymau clicio gwyrdd ar gyfer 'ie' a botymau clicio coch ar gyfer 'na' heb unrhyw destun ategol.

1.90 **Darparwch destun amgen ar gyfer pob llun.** Ni fydd pobl sy'n dibynnu ar feddalwedd arbennig i ddarllen gwefannau'n uchel neu i'w cyfieithu i Braille yn gallu gweld lluniau. Yn ogystal â hynny, ni ellir chwyddo na lleihau lluniau'n dda iawn a dônt yn aneglur pan gânt eu chwyddo. Gofynnwch i'r adran TG ddefnyddio tagiau 'alt' disgrifiadol ar gyfer pob llun y bydd darllenwyr testun yn gallu eu gweld, yn wahanol i ddelweddau: er enghraifft, gallai'r tag 'alt' ar gyfer llun o flwch pleidleisio nodi 'ffotograff o flwch pleidleisio'.

1.91 **Defnyddiwch Saesneg clir lle y bo'n bosibl.** Bydd hyn yn helpu'r sawl â lefelau isel o lythrennedd a'r sawl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

1.92 **Defnyddiwch atalnodi i rannu adrannau mawr o destun.** Bydd darllenwyr sgrîn a ddefnyddir gan y sawl â nam ar eu golwg a chan y sawl â lefelau isel o lythrennedd yn adnabod atalnodi ac yn cyflwyno seibiannau ar y pwyntiau hynny. Bydd hyn yn helpu darllenwyr i ddeall cynnwys y dudalen.

1.93 **Peidiwch â defnyddio 'cliciwch yma' ar gyfer dolenni.** Bydd rhai darllenwyr testun yn darllen dolenni tudalen ar wahân ac ni fydd yr ymadrodd 'cliciwch yma' yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i lywio drwy'r safle neu i weld gwybodaeth gysylltiedig.

1.94 **Sicrhewch fod cyn lleied o ardaloedd gwag â phosibl.** Mae RNIB yn argymell hyn oherwydd gall ardaloedd mawr o ofod gwag beri problemau i bobl â nam ar eu golwg.[13] Bydd llawer o bobl rannol ddall yn defnyddio meddalwedd chwyddo sgrîn i ddarllen gwefannau ac wrth iddynt sgrolio i lawr ardaloedd gwag mawr gallent ei chael yn anodd dod o hyd i eitem benodol neu efallai na fyddant yn sylweddoli bod rhywbeth arall ar y dudalen hyd yn oed.

1.95 **Sicrhewch nad yw'r wefan yn cynnwys eitemau sy'n fflachio mwy na thair gwaith yr eiliad.** Gall dilyniannau penodol o fflachiau neu ddilyniannau o luniau sy'n newid yn gyflym beri i rai pobl gael ffitiau. Mae offeryn y gellir ei ddefnyddio i weld a yw tudalen yn ddiogel: ewch i http://trace.wisc.edu/peat/ am ragor o wybodaeth.

1.96 **Sicrhewch fod y dudalen yn gwbl weithredol heb lygoden.** Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer rhestrau dethol cwympo a ffurflenni rhyngweithiol. Dylai fod dilyniant tabiau rhesymegol a rhagweladwy i'r eitemau gwahanol ar dudalen i helpu pobl â nam ar eu golwg a phobl â phroblemau symudedd na allant ddefnyddio llygoden. Dylai fod gan ddewislenni cwympo

[13] Gweler www.rnib.org.uk/xpedio/groups/public/documents/publicwebsite/public_screenmagnification.hcsp

fotymau ‘Ewch’ â llaw, yn hytrach nag ysgogi newid ar unwaith er mwyn galluogi defnyddwyr i adolygu eu dewis.

1.97 **Profwch y wefan ar gydweithwyr a grwpiau rhanddeiliaid.** Dylid cysylltu â grwpiau anabledd lleol a gofyn iddynt brofi’r wefan neu’r ffurflen, o safbwynt y defnyddiwr. Mae RNIB hefyd yn darparu profion hygyrchedd ac yn achredu gwefannau sy’n hygyrch, ym marn y sefydliad.

Adnoddau

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
1.98 Mae’r hen Gomisiwn Hawliau Anabledd, sydd bellach yn rhan o’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, wedi datblygu canllaw arfer da o ran comisiynu gwefannau hygyrch, y gellir ei lwytho i lawr o: www.equalityhumanrights.com/en/publicationsandresources/Disability/Pages/Websiteaccessibilityguidance.aspx. Mae’r ddogfen hon yn cynnig cyngor ar sut i ddod o hyd i ddatblygwyr gwefannau ag arbenigedd ym maes hygyrchedd hefyd.

Mencap
1.99 Mae Mencap yn cynnig rhywfaint o gyngor cyffredinol ar sicrhau bod gwefannau’n hygyrch i bobl ag anabledd dysgu yn: www.mencap.org.uk/download/webaccess.pdf.

RNIB
1.100 Mae RNIB yn dyfarnu ei logo ‘See it Right’ i wefannau sy’n hygyrch ym marn y sefydliad. Mae gwybodaeth am sut i gael achrediad ‘See it Right’ a dolenni i wefannau achrededig ar gael yn: www.rnib.org.uk/xpedio/groups/public/documents/PublicWebsite/public_accessiblewebsites.hcsp.

Copïau arddangos darllenydd sgrîn
1.101 Mae nifer o gopïau arddangos sydd i’w llwytho i lawr am ddim o ddarllenwyr sgrîn y gellir eu defnyddio i weld a yw gwefan yn darparu gwybodaeth a gweithrediadau cyfatebol os cânt eu darllen yn uchel. Er nad yw’r Comisiwn yn argymell unrhyw un yn benodol, mae JAWS (www.freedomscientific.com/fs_downloads/jaws.asp) a deunydd Gwe-bori Hawdd IBM y gellir ei lwytho i lawr (www-03.ibm.com/able/dwnlds/index.html) yn ddwy enghraifft o’r fath.

Offeryn dallineb lliw
1.102 Mae Vischeck yn offeryn am ddim sy’n efelychu effaith gwahanol fathau o ddallineb lliw ar liwiau gwefannau. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: www.vischeck.com/vischeck/vischeckURL.php.

Dull Dadansoddi Epilepsi Ffotosensitif
1.103 Mae’r dull hwn am ddim ac mae’n gwirio a yw cynnwys gwe yn peri risg o ffitiau ac mae ar gael i’w lwytho i lawr o http://trace.wisc.edu/peat/.

Menter Hygyrchedd Gwe Consortiwm y We Fyd-Eang
1.104 Mae Consortiwm y We Fyd-Eang (www.w3.org) yn gonsortiwm rhyngwladol lle bo aelod-sefydliadau a'r cyhoedd yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu safonau gwe.

1.105 Mae'n darparu canllawiau hygyrchedd drwy'r Fenter Hygyrchedd Gwe, sy'n gweithio gyda sefydliadau ledled y byd i ddatblygu strategaethau, canllawiau ac adnoddau i helpu i wneud y we yn hygyrch i bobl anabl. Cyhoeddodd y consortiwm ei gyfres gyntaf o ganllawiau a thechnegau i'w bodloni yn 1999, a ddefnyddir ganddo fel deunydd cyfeirio safonol o hyd ac sydd ar gael yn www.w3.org/TR/WCAG10/. Mae ei ganllawiau wrthi'n cael eu diweddaru ac mae fersiwn drafft ar gael yn www.w3.org/TR/WCAG20/. Mae'r canllawiau'n cwmpasu tair lefel o hygyrchedd, yn amrywio o sylfaenol (A) i uwch (AAA).

2 Gweithgareddau ymwybyddiaeth y cyhoedd

Cyflwyniad

2.1 I'r rhan fwyaf o etholwyr, mae eu cysylltiad â gwasanaethau cofrestru etholiadol yn gyfyngedig i'r ffurflen ganfasio flynyddol. Ni fydd pawb yn gyfarwydd â'r broses gofrestru ac felly mae deunydd cyhoeddusrwydd yn hanfodol fel bod unigolion yn gwybod pam, sut a phryd y mae angen iddynt gofrestru a sut i wneud cais am bleidlais absennol.

Gofynion statudol

2.2 Cyflwynodd Adran 69 o DGE ddyletswydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol hyrwyddo'r broses gofrestru a chyfranogiad etholiadol a noda fod yn rhaid iddynt ystyried unrhyw ganllawiau gan y Comisiwn ar y mater hwn.

Cynllunio strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd

2.3 Gall datblygu strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd helpu Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gyflawni eu dyletswydd ddeddfwriaethol i hyrwyddo'r broses gofrestru a gall hyn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar yr amser a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

2.4 Fel man cychwyn, dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried eu cynulleidfa darged. Bydd amgylchiadau lleol, yn ddieithriad, yn amrywio ac efallai na fydd gweithgareddau sy'n angenrheidiol i godi ymwybyddiaeth mewn un ardal yn berthnasol, neu efallai na fyddant yn gweithio, mewn cyd-destun gwahanol.

2.5 Cyn datblygu strategaeth, mae angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod yn ymwybodol o'u man cychwyn. Efallai y bydd angen iddynt gynnal archwiliad sylfaenol i werthuso pa brosesau sydd eisoes ar waith yn eu hardal i godi ymwybyddiaeth o'r broses gofrestru.

2.6 I helpu i ddatblygu strategaeth, mae'r Comisiwn yn argymell y dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol wneud y canlynol:

- **Sefydlu gweithgor ymwybyddiaeth y cyhoedd**. Gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol sefydlu gweithgor gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol o ardaloedd cyfagos a chyda darparwyr gwasanaethau allweddol neu grwpiau cymunedol. Gallai'r grŵp hwn helpu i ddatblygu a monitro eu strategaeth.
- **Archwilio gwybodaeth**. Gweithio gyda'r cyngor a'u penododd i asesu lle mae pobl yn debygol o gasglu gwybodaeth neu lenwi ffurflenni, er enghraifft wrth ymuno â'r llyfrgell neu dalu biliau.
- **Adeiladu ar waith presennol**. Canfod a oes unrhyw waith ymgysylltu democrataidd eisoes yn cael ei wneud gan dimau ieuenctid a chymunedol lleol a gweld a ellir cynnwys y gwaith hwn yn y strategaeth.
- **Targedu grwpiau sydd wedi'u tangofrestru**. Nodi pa grwpiau a gaiff eu tangynrychioli o ran cofrestru etholiadol yn yr ardal.

- **Dod o hyd i sefydliadau cyswllt lleol**. Cysylltu â sefydliadau neu unigolion lleol sydd â mynediad i'r grwpiau a nodwyd neu sydd â dylanwad drostynt, a allai gynnwys grwpiau yn y sector gwirfoddol, gweithwyr ieuenctid neu wasanaethau cymdeithasol, cymdeithasau tai, clybiau chwaraeon neu glybiau ffydd.
- **Nodi pryd i dargedu'r grwpiau**. Os yw'r adnoddau'n brin, efallai na fydd yn bosibl targedu pob un o'r grwpiau hyn ar unwaith ac felly mae'n werth nodi yn y strategaeth pa grwpiau a gaiff eu targedu a phryd.
- **Nodi digwyddiadau allweddol**. Gallai canolbwyntio gweithgarwch ar ddigwyddiadau allweddol, megis etholiadau sydd ar ddod a dyddiadau cau ar gyfer cofrestru pleidleiswyr, Wythnos Ddemocratiaeth Leol, Mis Hanes Du ac wythnosau'r glas godi ymwybyddiaeth o'r gwaith.
- **Bod yn realistig**. Ni waeth faint o daflenni sgleiniog, hysbysebion ar y radio neu'r teledu sydd gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, yr allwedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd yn lleol yw adeiladu partneriaethau da ym mhob adran o'r cyngor a grwpiau cymunedol.

2.7 Dylai'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ystyried gweithio gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol eraill a chyda Swyddogion Canlyniadau wrth ddatblygu eu strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd. Gall cydweithio o'r fath helpu i greu arbedion cost ac effeithlonrwydd a gall hefyd sicrhau neges gyson ledled ardal ehangach.

2.8 Wrth ddatblygu strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd, bydd angen ystyried y gyllideb. Argymhellir y dylai pob Swyddog Cofrestru Etholiadol feddu ar gyllideb benodedig ar gyfer cyhoeddusrwydd. Mae gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol gryn ddisgresiwn o ran y defnydd gorau o gyhoeddusrwydd: gallai o bosibl fod ar ffurf byrddau biliau, posteri, negeseuon ar bost a anfonir, neu hysbysebion yn y wasg a chyfryngau lleol eraill megis gorsafoedd radio masnachol lleol; neu gall fod yn briodol defnyddio digwyddiadau hyrwyddol megis sioeau teithiol i gynyddu ymwybyddiaeth pleidleiswyr.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn meddu ar Gronfa Cyfranogiad Etholiadol (cyfanswm o £2.5 miliwn bob blwyddyn ariannol) y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru a Lloegr hawlio yn ei herbyn i wrthbwyso gwariant yr eir iddo yn unol ag Adran 69 o DGE. Mae'r gronfa ar gael ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud ag unrhyw etholiad statudol a/neu broses gofrestru. Caiff yr uchafswm hawl enwol y bydd gan Swyddog Cofrestru Etholiadol neu Swyddog Canlyniadau penodol yr hawl iddi ei phennu drwy gyfeirio at ardal yr awdurdod lleol a'i chyfrifo 'fesul etholwr lleol'. Gellir hefyd gyflwyno ceisiadau ar y cyd ag awdurdodau lleol eraill. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Kamla Joshi ar 020 7210 8227.

Yn yr Alban, darperir arian i awdurdodau lleol drwy eu Gwariant â Chymorth Grant, y bwriedir ei ddefnyddio i gyflawni'r cyfrifoldebau sy'n deillio o'r DGE. Er nad yw'n arian wedi'i neilltuo, dylai fod ar gael i annog pobl i gymryd rhan mewn etholiadau, wrth baratoi ar gyfer dyletswyddau newydd a gyflwynir ac unrhyw rwymedigaethau eraill a osodwyd gan y Ddeddf. Gellir cysylltu â Sheila Scobie yn Swyddfa'r Alban ar 0131 244 9007 am ragor o fanylion.

2.9 Mae'r Comisiwn wedi datblygu nifer o daflenni ac adnoddau eraill y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu defnyddio fel rhan o'u strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd. Drwy ddefnyddio'r deunyddiau hyn, gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol arbed y costau sy'n gysylltiedig â datblygu eu brand eu hunain ar gyfer deunyddiau cyhoeddusrwydd. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain a sut i'w cael a'u defnyddio ar gael isod.

Gwerthuso gwaith ar ymwybyddiaeth y cyhoedd

2.10 Mae'n hanfodol bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gwerthuso eu gwaith ar ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae angen cynnal gwerthusiadau er mwyn mesur effeithiolrwydd prosiect a dangos cyflawniadau. Fel y cyfryw, maent yn chwarae rhan bwysig o ran dangos bod arian trethdalwyr yn cael ei ddefnyddio'n briodol.

2.11 Dylai gwerthuso gwaith ar ymwybyddiaeth y cyhoedd helpu i gasglu'r wybodaeth gywir am y gwaith a wneir, fel bod llwyddiannau a'r gwersi a ddysgir yn cael eu cofnodi ac fel y gellir gwneud argymhellion ar gyfer y dyfodol.

2.12 Yr adeg orau i gynllunio a phennu cwmpas unrhyw werthusiad yw yn ystod cam cynllunio'r prosiect. Mantais llunio cynllun gwerthuso ar ddechrau prosiect yw y gall nodi amwyseddau neu anghysondebau weithiau o ran y gweithgarwch arfaethedig y gellir eu cywiro cyn ei lansio. Ar y cam cynllunio, mae'n bwysig diffinio'r cwestiynau i fynd i'r afael â hwy drwy'r gwerthusiad a sut y gellid ateb y cwestiynau hyn.

2.13 Dylai unrhyw gynllun gwerthuso ddisgrifio'n glir pam y cynhelir y gwerthusiad a beth yw ei fwriad. Dylid seilio'r gwerthusiad, yn glir, ar amcanion cychwynnol y prosiect.

2.14 Dylai cynllun gwerthuso nodi unrhyw gyfyngiadau i'r gwerthusiad, yn cynnwys unrhyw risgiau posibl i ddibynadwyedd a dilysrwydd dyluniad y gwerthusiad a'r canfyddiadau sy'n deillio ohono.

2.15 Dylai'r cynllun gwerthuso nodi rhanddeiliaid perthnasol y byddai ganddynt ddiddordeb yn y gwerthusiad ac y dylid rhannu'r canfyddiadau â hwy. Gallai fod yn werth gofyn am farn rhanddeiliaid ar y cynllun gwerthuso hefyd.

2.16 Mae angen mesurau meintiol ar bob gwerthusiad ar gyfer amcan cyffredinol y fenter a gaiff ei gwerthuso. Dylid defnyddio cymysgedd o

ddangosyddion, y gall rhai ohonynt fod yn seiliedig ar ymddygiad (yr hyn y mae pobl wedi'i wneud, yr hyn sydd wedi digwydd mewn gwirionedd) neu'n seiliedig ar ganfyddiad (yr hyn y mae pobl yn credu iddo ddigwydd). Mae'n bwysig ceisio mesur:

- achos ac effaith: e.e. a yw cyfranogiad cynyddol yn deillio o'r ffaith bod y cyhoedd yn manteisio ar y fenter newydd neu ai cyfranogiad cynyddol wnaeth beri i'r cyhoedd fanteisio ar y fenter newydd?
- ffactorau amgylcheddol neu 'sŵn cefndir': i ba raddau y mae cyfranogiad cynyddol yn deillio o'r fenter neu o ryw ffactorau eraill?
- yr achos sylfaenol: h.y. beth fyddai wedi digwydd pe na bai'r fenter yn bodoli?

2.17 Wrth fesur llwyddiant neu fethiant mentrau i hyrwyddo'r broses gofrestru, efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am ystyried y canlynol:

- a yw nifer y bobl sy'n cofrestru i bleidleisio yn cynyddu
- a fydd y sawl sy'n cymryd rhan mewn cynllun yn rhoi adborth cadarnhaol
- a yw dealltwriaeth pobl o'r broses ddemocrataidd yn cynyddu
- a gafwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau am fformatau amgen

2.18 Mae'n debygol y defnyddir amrywiaeth o ddulliau i werthuso prosiect. Ar y cam cynllunio, mae'n bwysig meddwl am y dulliau mwyaf priodol i'w defnyddio ar gyfer gwerthuso. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddulliau gwerthuso gwahanol:

- dosbarthu holiaduron gwerthuso ar ddiwedd digwyddiad
- cofnodi adborth gan y cyhoedd mewn digwyddiadau neu drwy'r wefan gorfforaethol
- cofnodi nifer y cofrestrwyr newydd
- cofnodi nifer y bobl sy'n ymweld â'r wefan yn gofyn am wybodaeth am gofrestru a/neu bleidleisio absennol
- cynnal arolwg barn y cyhoedd i ganfod p'un a oedd y cyhoedd yn ymwybodol o'r fenter, eu barn arni ac a wnaethant gofrestru o ganlyniad iddi
- arolygon cyn y fenter ac ar ôl y fenter i ganfod a yw gwybodaeth ac ymwybyddiaeth pobl o'r broses gofrestru a'r broses etholiadol wedi cynyddu o ganlyniad i'r fenter
- cyfweliadau â rhanddeiliaid i ganfod eu barn ar y fenter

2.19 Mae angen i'r cynllun gwerthuso nodi pwy fydd yn cymryd rhan yn y gwerthusiad a faint o bobl fydd yn gwneud hynny. Dylai'r cynllun gwerthuso hefyd benderfynu pwy sy'n mynd i fod yn gyfrifol am y rhannau gwahanol o'r gwerthusiad. Dylai'r amserlen gynnwys gweithredu'r prosiect, dadansoddi a chyflwyno adroddiadau ar y gwerthusiad.

2.20 Dylid ystyried yr adnoddau a gaiff eu dyrannu i werthuso prosiect penodol. Dylai cost y gwerthusiad fod yn gymesur â chost y prosiect, ond ni ellir rhoi cyfrif boddhaol o effeithiolrwydd rhaglen unigol heb werthusiad.

Llunio taflenni

2.21 Gall taflenni fod yn ffordd effeithiol o gyfleu gwybodaeth am y broses gofrestru a phleidleisio absennol. Mae taflenni'n darparu'r gofod i gyflwyno syniadau'n glir a chydag effaith graffigol. Maent hefyd yn rhoi'r cyfle i bobl fynd â gwybodaeth adref fel bod ganddynt fwy o amser i'w hamsugno ac fel y gallant gadw cofnod gweledol ohoni. Unwaith y caiff ei dosbarthu, efallai y bydd llawer mwy o bobl yn darllen taflen na'r unigolyn y'i rhoddwyd iddo yn y lle cyntaf, gan ehangu ei heffaith. Heb fod yn gostus iawn, gellir lledaenu taflenni â llaw neu drwy'r post, eu rhoi mewn papurau newydd lleol i'w dosbarthu, a'u gadael mewn lleoliadau fel siopau, bwytai, caffis a llyfrgelloedd. Dylai fod gan dderbynfeydd awdurdodau lleol y taflenni diweddaraf.

Gellir archebu taflenni ymwybyddiaeth y cyhoedd a lunnir gan y Comisiwn a'u dosbarthu am ddim. Am ragor o wybodaeth a chatalog llawn, ewch i'r Ganolfan Do Politics yn www.dopolitics.org.uk, neu ffoniwch ganolfan ddosbarthu'r Comisiwn ar 0845 8500 501. Mae taflenni ar gael hefyd mewn amrywiaeth o ieithoedd a fformatau ar gais.

2.22 Dylid ystyried faint o wybodaeth i'w chynnwys ar daflen. Bydd deunydd a ysgrifennwyd yn dda bob amser yn galluogi pobl i wneud penderfyniadau mwy hyddysg yn gyflym. Ni ddylai taflen gynnwys gormod o destun. Dylai nod unrhyw daflen ymwneud bob amser ag eglurder, dadl gref ac ansawdd.

2.23 Mae maint yn berthnasol hefyd. Caiff taflen nad yw'n ffitio'n hawdd i boced neu fag ei thaflu i ffwrdd. Mae llyfrgelloedd yn tueddu i gael raciau yn cynnwys taflenni o faint penodol, ac felly er mwyn dosbarthu taflenni i lyfrgelloedd, byddai'n ddoeth ymholi ynglŷn â maint eu raciau taflenni fel y gellir dylunio taflenni yn unol â hynny.

2.24 Mae cyflwyniad yn bwysig hefyd. Gall lluniau a graffeg fod yn gymhorthion defnyddiol i atgyfnerthu'r wybodaeth a roddir yn y testun. Bydd y modd y cyflwynir y lluniau hyn yn cyfrannu at y ffordd y bydd darllenwyr yn canfod eu pwysigrwydd.

2.25 Er mwyn creu taflen, argymhella'r Comisiwn y dylid glynu wrth y canlynol:[14]

- **Cynnwys**. Dylid nodi'r hyn sydd angen ei ddweud o'r cychwyn cyntaf. Er bod llawer o le ar daflen, mae'n hanfodol bod yn glir ac yn llawn gwybodaeth a pheidio â gorlwytho'r daflen â thestun.

- **Golygu testun**. Dylai testun y daflen fod yn:
  - ddarbwyllol
  - diddorol i'w darllen
  - deniadol ac yn gofiadwy

[14] Addaswyd o wefan 'Pressureworks' Cymorth Cristnogol – www.pressureworks.org.uk.

Dylid fformatio er mwyn amlygu'r testun a chreu effaith. Gall paragraffau byr wedi'u nodi â phenawdau fod yn ddefnyddiol. Gellir defnyddio maint ffont neu liw i amlygu adrannau penodol o destun, tra bo rhestrau pwynt bwled yn gallu helpu defnyddwyr i lywio drwy'r wybodaeth. Dylid hefyd gyflwyno'r wybodaeth mewn iaith hawdd ei deall, gan ddefnyddio Saesneg clir pan fo'n bosibl.

- **Dylunio lluniau**. Gall luniau helpu i gyfleu'r neges. Yn gyffredinol, os na ddefnyddir ffotograffau a gymerir gan staff cofrestru eu hunain, dylid defnyddio luniau o ffynonellau swyddogol. Gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd ystyried cadw ffotograffau neu luniau a lwythwyd i lawr o'r rhyngrwyd. Wrth ystyried defnyddio luniau neu graffiau o ffynonellau trydydd parti, dylid gofyn am ganiatâd i'w hailddefnyddio. Mae gan y Comisiwn luniau stoc ar gael i'w defnyddio o'r Ganolfan Do Politics (www.dopolitics.org.uk).

- **Dylunio cynllun**. Mae angen meddwl yn ofalus am gynllun taflen. Gallai fod yn ddefnyddiol nodi'n fras ymhle y bydd blociau o destun, penawdau, luniau ac ati yn mynd. Wrth benderfynu ar y cynllun lliw, mae'n bwysig cofio y gall rhai darllenwyr fod yn lliwddall neu fod â nam ar eu golwg. Bydd cyferbynnedd isel yn gwneud y testun yn anos i'w ddarllen. Gall blociau mawr o destun gwyn dros gefndir tywyll fod yn anodd eu darllen hefyd.

- **Gwneud llyfryn.** Gall llyfryn A5 fod â chlawr blaen a chlawr ôl a thaeniad dwy dudalen y tu mewn. Mae'r clawr blaen yn cyflwyno un datganiad grymus a llun trawiadol i ategu teitl y daflen. Dylai'r rhain fod yn ddigon gafaelgar i beri i unrhyw un fod yn awyddus i ddarllen rhagor. Gellir defnyddio tudalennau dau a thri i ddarparu'r holl brif wybodaeth, megis sut a phryd i gofrestru i bleidleisio. Yn olaf, dylai'r clawr cefn gynnwys manylion cyswllt ar gyfer pobl sydd am wybod mwy neu sydd am gymryd rhan. Dylid crybwyll sefydliadau partneriaeth hefyd os yw'n berthnasol.

- **Argraffu.** Yn gyffredinol, mae'n well rhoi'r gwaith i weithiwr proffesiynol. Bydd unrhyw gwmni argraffu yn argraffu, torri a phlygu taflenni a gall hyd yn oed helpu gyda'r gwaith dylunio. Mae nifer o ddulliau argraffu gwahanol a bydd y rhain yn dibynnu ar nifer y taflenni y mae angen eu cynhyrchu. Ar gyfer argraffu nifer fach o daflenni, sef tua 500 neu lai, gallai fod yn werth ystyried argraffu digidol. Golyga hyn y caiff y taflenni eu hargraffu ar lungopïwr lliw o'r radd flaenaf ac y gellir defnyddio cymaint o liwiau ag sydd eu hangen. Ar gyfer argraffu nifer fwy o daflenni, bydd angen argraffu offset, sy'n golygu y caiff taflenni eu hargraffu ar wasg argraffu fawr. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, mae'n rhatach argraffu gydag un neu ddau liw ac yn fwy costus i argraffu mewn lliw llawn. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gofio cael o leiaf ddau neu dri dyfynbris, gan ofyn i bob cwmni argraffu roi dyfynbris ar yr un manylebau yn union, er mwyn cymharu dyfynbrisiau'n hawdd.

Rhydd Adran 1, ‘Sicrhau bod y broses gofrestru’n hygyrch’, uchod, ganllawiau ar sut i sicrhau bod cyhoeddiadau’n fwy hygyrch.

Codi ymwybyddiaeth ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd

2.26 Ceir tystiolaeth bod nifer o grwpiau cymdeithasol sydd wedi’u tangofrestru. Rhestrir rhai o’r grwpiau hyn isod, ynghyd â chyngor ar sut i deilwra ymgyrchoedd penodol iddynt.

Pobl ifanc

2.27 Mae’n hanfodol cofio bod pobl ifanc yn newydd i’r broses etholiadol ac y gallai eu hymwybyddiaeth o’r broses gofrestru fod yn gyfyngedig. Darperir adolygiad o astudiaethau perthnasol ar ymgysylltu â phleidleiswyr ymhlith pobl ifanc yn y DU yn adroddiad y Comisiwn, *Voter engagement and young people*, sydd ar gael yn www.comisiwnetholiadol.org.uk.

2.28 Gall ymgysylltu ag ysgolion uwchradd a cholegau chweched dosbarth fod yn ffordd dda o sicrhau bod pobl ifanc 16 a 17 oed yn cael eu nodi a’u gwneud yn ymwybodol o’r broses etholiadol. Gall awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau dinasyddiaeth – megis rhedeg etholiadau ysgolion. Gall fod yn briodol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol neu eu staff fynd i’r Wythnos Ddemocratiaeth Leol neu ddigwyddiadau mewn ysgolion neu golegau ac annog y rhai sy’n bresennol i gwblhau ffurflen cofrestru etholiadol.

2.29 Efallai y bydd yn briodol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol fynd i ‘wythnosau’r glas’ mewn prifysgolion hefyd er mwyn annog myfyrwyr y brifysgol i gwblhau ffurflen cofrestru etholiadol. Yn yr un modd, efallai y bydd yn ddefnyddiol meithrin cydberthynas â staff sefydliadau neu golegau sy’n gyfrifol am helpu gyda threfniadau llety er mwyn cael manylion am fyfyrwyr. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd weithio gydag awdurdodau lleol cyfagos sydd hefyd yn darparu llety myfyrwyr lle bydd unrhyw orgyffwrdd yn digwydd.

2.30 Mae’r Comisiwn wedi llunio ystod eang o adnoddau wedi’u hanelu at bobl ifanc, athrawon a gweithwyr ieuenctid. Ymhlith y rhain mae’r *Democracy Cookbook*, posteri, cardiau post a deunyddiau eraill sydd wedi’u hanelu at bobl ifanc. Gellir llwytho’r rhain i gyd i lawr o wefan Do Politics (www.dopolitics.co.uk) a gellir hefyd eu harchebu ar gopi caled o warws y Comisiwn (gweler Rhan A, ‘Cyd-destun’, Adran 6, ‘Adnoddau’).

Mae’r canlynol yn rhai enghreifftiau o weithgareddau, a dreialwyd gyda phobl ifanc ac sydd wedi’u dylunio i fywiogi gwleidyddiaeth a sbarduno pobl ifanc i feddwl am sut mae gwleidyddiaeth yn effeithio arnynt hwy. Mae’r wefan Do Politics yn cynnwys rhagor o fanylion am sut i redeg pob gweithgarwch yn www.dopolitics.org.uk/HowTo/how-to-2.cfm.

Cynnal gweithdy do politics. Syniad sylfaenol y gweithdy hwn yw gweithredu mewn modd sy'n seiliedig ar faterion a siarad am y ffyrdd gwahanol y mae gwleidyddiaeth yn effeithio ar ein bywyd bob dydd. Ar y wefan Do Politics, mae'r Comisiwn wedi darparu amlinelliad enghreifftiol y gellir ei addasu i ddiwallu anghenion Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwahanol. Mae llawer o'r gweithgareddau yn yr amlinelliad yn deillio o'r *Democracy Cookbook*.

Cynnal digwyddiad 'caru cyflym gwleidyddol'. Mae caru cyflym gwleidyddol yn ffordd ysgafn a llawn hwyl i gyfranogwyr ryngweithio â'u cynrychiolwyr. Fel caru cyflym confensiynol, mae pob sesiwn yn cynnwys cyfres o ryngweithiadau tair munud. Yn ystod y cyfnod hwn, gall pobl ofyn unrhyw beth i'w partner ac eithrio ei oedran, y blaid y mae'n gysylltiedig â hi a ble y mae'n byw. Y syniad yw canolbwyntio ar yr unigolyn. Pan glywir sŵn y gong, waeth pa mor ddiddorol yw'r sgwrs, mae pawb yn symud ymlaen.

Trefnu Diwrnod Democratiaeth. Mae Diwrnodau Democratiaeth yn dod â phobl ifanc i gysylltiad â chynrychiolwyr etholedig a'u nod yw cau bylchau mewn gwybodaeth am sefydliadau democrataidd a'r broses etholiadol. Gellid cynnal y rhain fel cynhadledd undydd, sy'n cynnwys gweithdai addysgol rhyngweithiol ynghyd â sesiwn holi ac ateb.

Marchnata ar y stryd. Mae marchnata ar y stryd yn cynnwys tîm o staff neu wirfoddolwyr sy'n cysylltu â phobl wyneb yn wyneb, a hynny'n gymharol fyr fel arfer, er enghraifft mewn digwyddiad fel sioe deithiol neu drwy gynnig pethau am ddim o stondin mewn canolfan siopa. Gall fod yn ddull defnyddiol o dargedu grwpiau sydd wedi'u tangofrestru gan y gellir rhoi'r wybodaeth iddynt hwy, yn hytrach na gofyn iddynt fynd ar ei thrywydd eu hunain. Gan fod angen ymateb ar unwaith, gellir casglu ffurflenni yn y fan a'r lle, gan beri i'r broses gofrestru ymddangos yn llawer haws. Mae hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd ofyn ynghylch unrhyw beth nad ydynt yn ei ddeall.

Grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

2.31 Mae ymgyrchoedd cyfryngau'r Comisiwn yn targedu'r grwpiau hyn yn benodol ac mae ymateb gan aelodau o'r gymuned i'r ymgyrchoedd hyn yn faen prawf hanfodol ar gyfer mesur llwyddiant. Mae'r Comisiwn hefyd yn llunio amrywiaeth o ffurflenni a deunyddiau sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig y gellir cael gafael arnynt drwy'r Ganolfan Do Politics (www.dopolitics.org.uk). Ymhlith y rhain mae cyfieithiadau o rai o ddeunyddiau allweddol y Comisiwn, yn cynnwys:

- taflen *Cofrestrwch i bleidleisio*
- taflen *Gwnewch gais am bleidlais bost*
- taflen *Gan bwy y mae fy manylion personol?*
- taflen *Mae'n hawdd pleidleisio*

2.32 Ar wahân i gael gafael ar y deunyddiau a restrir uchod, mae camau y gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol eu cymryd i wella cofrestru ymhlith cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn eu hardal.

2.33 Os oes grwpiau cymunedol penodol y gwyddys eu bod wedi'u tangofrestru, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol am ddarparu deunyddiau yn yr ieithoedd priodol. Mae'r Comisiwn yn darparu amrywiaeth o wybodaeth a ffurflenni mewn amryw ieithoedd (yn cynnwys Arabeg, Bengali, Ffrangeg, Gwjarati, Punjabeg, Pwyleg, Tsieinëeg ac Wrdw). Mae'r rhain ar gael o wefan y Comisiwn (www.comisiwnetholiadol.org.uk) a gwefan Do Politics (www.dopolitics.org.uk). Fodd bynnag, efallai y bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol am deilwra gwybodaeth i amgylchiadau lleol. Os felly, mae ychydig faterion y bydd angen eu hystyried:

- **Pa ieithoedd?** Efallai y bydd gan ardaloedd penodol anghenion iaith penodol ac felly mae'n werth cysylltu â grwpiau cymunedol i weld a oes galw am ddeunyddiau wedi'u cyfieithu. Hyd yn oed os na wnaed unrhyw geisiadau, nid yw hynny'n golygu o reidrwydd nad oes angen cyfieithiadau ar bobl. Mae'n bosibl nad yw pobl yn gwybod bod y wybodaeth ar gael ac felly gallai fod yn werth gwneud rhywfaint o waith allgymorth.
- **Amser a chyllideb:** Nid yw llawer o sefydliadau'n ystyried faint o amser y gall cyfieithiadau ei gymryd ac felly gallai fod yn rhaid iddynt dalu mwy er mwyn i'r gwaith gael ei gwblhau'n gyflym.
- **Cynllun:** Gall cyfieithiadau gymryd mwy o le na fersiwn Saesneg y ddogfen. Mae'n bwysig caniatáu amser a chostau ychwanegol ar gyfer dylunio'r cyfieithiad gorffenedig. Bydd llawer o asiantaethau cyfieithu yn gallu trefnu hyn.
- **Proflenni:** Mae'n bosibl prawf ddarllen y ddogfen yn rhannol heb orfod siarad yr iaith. Gellir gwirio atalnodi, lliwiau a phenawdau i weld a ydynt yn y lle cywir. Ond mae'n ddoeth gofyn i'r cyfieithydd wirio proflenni terfynol y cwmni argraffu.

2.34 Mae gan rai cymunedau orsafoedd radio lleol sy'n darlledu mewn ieithoedd penodol. Gallai darn byr ar gofrestru a chanfasio hyrwyddo ymwybyddiaeth a gellid ei ddefnyddio i roi cyngor syml ar sut i gwblhau'r ffurflen. Gallai'r tîm cyfathrebu corfforaethol o fewn awdurdodau sy'n penodi gynorthwyo gyda chysylltiadau radio a phapur newydd. Gall rhai awdurdodau lleol gysylltu eu tudalennau gwe â gwasanaethau cyfieithu er mwyn galluogi gwybodaeth i gael ei rhoi mewn ieithoedd eraill.

2.35 Mae'n rhaid i bawb sy'n dod yn ddinasyddion y DU drwy ddinasyddio fynd i seremoni ddinasyddiaeth, a gynhelir gan awdurdodau lleol. Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ystyried sut y gallent annog pleidleiswyr i gofrestru yn y digwyddiadau hyn.

Mae rhagor o wybodaeth am seremonïau dinasyddiaeth a hyrwyddo cofrestru etholiadol ar gael yn Rhan B, 'Hawl i gofrestru' a Rhan D, 'Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb'.

Grwpiau anabledd

2.36 Nid yw pobl anabl yn un grŵp unffurf, a bydd pobl wahanol yn wynebu rhwystrau gwahanol iawn i fynediad. Efallai fod gan bobl anabl namau lluosog

hefyd a gallent felly wynebu rhwystrau lluosog. Er ei bod yn bwysig ystyried sut i gyflwyno gwybodaeth am y broses etholiadol i bob pleidleisiwr anabl, mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys rhagor o fanylion ar gyfer dau grŵp y mae gwybodaeth anhygyrch yn effeithio arnynt yn benodol, sef pobl â nam ar eu golwg a phobl ag anawsterau cyfathrebu neu ddysgu. Rhoddir gwybodaeth hefyd am baratoi deunyddiau mewn fformatau hygyrch megis Braille, print bras a sain.

2.37 Rhydd DGA 1995 ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried hyrwyddo cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae cynghorau yn awdurdodau cyhoeddus a chred y Comisiwn fod y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb ac atal gwahaniaethu yn ymestyn i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, fel swyddog a benodir gan y cyngor. Mae hyn yn cynnwys diwallu anghenion gwybodaeth pobl anabl.

2.38 Rhydd y paragraffau canlynol enghreifftiau o sut i godi ymwybyddiaeth o gofrestru ymhlith pobl ddall a phobl rannol ddall, yn ogystal ag ymhlith pobl ag anawsterau dysgu.

2.39 Er mwyn sicrhau bod anghenion gwybodaeth pobl â nam ar eu golwg yn cael eu diwallu, dylid ystyried y pwyntiau canlynol:

- Llunio rhestr o'r bobl hynny yn yr ardal leol y mae angen gwybodaeth arnynt mewn Braille, ar dâp sain neu mewn print bras. Gellir gwneud hyn drwy weithio gyda'r tîm nam ar y synhwyrau (os oes un) yn y cyngor lleol neu drwy gysylltu ag elusennau anabledd lleol. Pan gaiff gwybodaeth ei hanfon allan, dylai'r bobl ar y rhestr hon gael gwybodaeth yn eu dewis fformat, a hynny'n awtomatig.

- Gweithio gyda grwpiau cymorth nam ar y golwg i ddosbarthu gwybodaeth. Dylid sicrhau bod gweithwyr cymorth yn ymwybodol o'r broses gofrestru a pha gymorth sydd ar gael.

- Sicrhau bod pob gwybodaeth a gaiff ei hargraffu yn dilyn canllawiau print clir RNIB. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod maint y ffont yn 12 pwynt o leiaf, na ddefnyddir papur sgleiniog iawn (gan y gall y golau a adlewyrchir ei gwneud yn anodd darllen) a bod y cyferbynnedd rhwng y ffurfdeip a'r cefndir yn glir. Am ragor o wybodaeth am hyn gweler hefyd Adran 1, 'Etholwyr anabl', uchod.

- Sicrhau bod gwefannau'n cydymffurfio â chanllawiau ar hygyrchedd. Am ragor o wybodaeth gweler Adran 1, 'Ysgrifennu ar gyfer y we', uchod.

- Rhoi gwybodaeth drwy bapurau newydd llafar. Mae dros 500 o bapurau newydd llafar lleol ledled y DU. Maent yn cofnodi newyddion a gwybodaeth leol ar fformat sain i bobl ddall a phobl â nam ar eu golwg. I ganfod a oes papur newydd llafar mewn ardal benodol, cysylltwch â'r Gymdeithas Papurau Newydd Llafar (www.tnauk.org.uk).

2.40 Ni ddylid tybio na fydd pobl ag anawsterau dysgu yn deall sut mae'r broses gofrestru'n gweithio. Y cyfan sydd angen ei gydnabod yw y gall fod angen cymorth priodol ar rai pobl gyda rhai agweddau ar y broses gofrestru:

- Efallai y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol am weithio gyda grwpiau anhawster dysgu lleol i sicrhau bod pobl ag anhawster dysgu yn gallu cael gafael ar gymorth wrth gofrestru i bleidleisio. Efallai y byddant hefyd am ddatblygu cerdyn y gall pobl ei gyflwyno i'r Clerc Pleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad, sy'n nodi bod ganddynt anhawster dysgu ac y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt.

- Mae'n well gan rai pobl gael gwybodaeth a gyflwynir yn graffigol. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu na allant ddarllen testun, ond gall symbolau helpu i gadarnhau'r hyn y credant y mae'r testun yn ei gyfleu. Gellid llunio deunyddiau sy'n ymwneud â chofrestru yn y fformat hwn, a dylid gofyn i grwpiau sy'n meddu ar brofiad o lunio testun hawdd ei ddarllen neu destun a ategir gan luniau am gymorth. Mae gan y Comisiwn ganllaw i bleidleisio sy'n hawdd ei ddarllen sy'n cynnwys cyngor ar gofrestru, y gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei ddosbarthu i grwpiau anabledd yn eu hardal.

- Mae cynllun y testun ar ddeunyddiau argraffedig yn bwysig hefyd. Mae'n bosibl y bydd pobl â dyslecsia yn gallu darllen testun yn haws os caiff math, lliw a maint y testun eu dewis yn ofalus.

- Os oes llinell gymorth ffôn, mae'n bwysig hyfforddi staff i allu ymdrin â galwadau gan bobl anabl, yn arbennig gan bobl anabl ag anawsterau dysgu.

2.41 Mae gan y Comisiwn amrywiaeth o daflenni a ffurflenni gwybodaeth i'r cyhoedd sydd ar gael mewn Braille, mewn fformat print bras ac mewn fformat sain. Mae gan y Comisiwn ganllaw i bleidleisio hefyd sy'n hawdd ei ddarllen ac yn cynnwys lluniau i bobl ag anhawster dysgu: gweler catalog y Comisiwn yn www.dopolitics.org.uk am ragor o wybodaeth. Rhydd sefydliadau hawliau anabledd gyngor ymarferol ar agweddau gwahanol ar y broses etholiadol hefyd, yn cynnwys cofrestru. Ceir rhestr sy'n cynnwys nifer o'r sefydliadau hyn yn Adran 1, 'Etholwyr anabl', uchod.

Pleidleiswyr gwasanaeth

2.42 Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn i annog aelodau o'r lluoedd arfog i gofrestru. Penodwyd Swyddogion Cofrestru Uned (SCU) mewn unedau milwrol ym mhob un o'r tri llu arfog.

2.43 Mae'r Comisiwn a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cynnal gweithgaredd yn ddiweddar yn ystod y cyfnod canfasio blynyddol i hyrwyddo cofrestru ymhlith aelodau o'r lluoedd arfog. Roedd y gweithgaredd hwn yn cynnwys:

- dosbarthu'r daflen *Voting information for armed forces personnel and their families* i unedau ledled y byd

- cynnal diwrnodau cofrestru uned ym mhob uned, lle rhoddodd y SCU gyflwyniad gan annog aelodau o'r lluoedd arfog i gofrestru i bleidleisio
- hysbysebu mewn cyhoeddiadau'r wasg sy'n canolbwyntio ar y lluoedd arfog gan annog aelodau i siarad â'i SCU am wybodaeth am gofrestru

2.44 Gellir cynorthwyo etholwyr gwasanaeth i gofrestru yn y ffyrdd canlynol:

- Helpu i drefnu neu fod yn bresennol mewn Diwrnod Cofrestru Etholiadol Gwasanaeth yn y barics lleol – rhoi cyflwyniad, ateb cwestiynau, gosod posteri a rhoi ffurflenni cofrestru i bobl.
- Siarad â SCU am roi erthygl neu gyfweliad i'r cyfryngau gwasanaeth, megis Gwasanaeth Darlledu Lluoedd Prydain, Radio Garrison, cylchgronau gwasanaeth neu bapurau newydd rhanbarthol.
- Siarad â Swyddogion Gwybodaeth HIVE mewn unedau – mae'r swyddogion hyn yn rhoi gwybodaeth ac yn cefnogi teuluoedd aelodau o'r lluoedd arfog.

2.45 Dylid ystyried y canlynol hefyd:

- Os oes uned filwrol (barics neu ganolfan) yn yr ardal gofrestru, dylid cysylltu â'r SCU yn rheolaidd. Cofiwch fod rôl y SCU yn tueddu i newid yn gymharol aml wrth i aelodau o'r lluoedd arfog gael eu lleoli.
- Mae datganiadau pleidleiswyr gwasanaeth (cofrestriadau) yn ddilys am dair blynedd, ond mae'n bwysig hefyd i aelodau o'r lluoedd arfog hysbysu Swyddogion Cofrestru Etholiadol pan fydd eu cyfeiriad yn newid.
- Gall llawer o aelodau'r lluoedd arfog gael eu hanfon dramor ar fyr rybudd, sy'n golygu bod llawer ohonynt yn pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy. Sicrhewch fod y dulliau pleidleisio yn cael eu hesbonio'n llawn, yn cynnwys yr amserlenni dan sylw a'r ffurflenni y bydd angen eu llenwi er mwyn gwneud cais amdanynt.
- Gall teuluoedd (gwŷr, gwragedd a phartneriaid sifil) aelodau o'r lluoedd arfog hefyd gofrestru fel pleidleiswyr gwasanaeth os dymunant, neu gallant ddewis cofrestru fel etholwyr arferol.

Rhoddir canllawiau ar y trefniadau ymarferol ar gyfer cofrestru pleidleiswyr gwasanaeth yn Rhan Dd, 'Etholwyr categori arbennig'.

Pobl sy'n symud tŷ

2.46 Mae pobl sy'n perthyn i'r gynulleidfa darged hon yn tueddu i fod wedi'u tangofrestru o ganlyniad i ffactorau sefyllfaol yn hytrach na ffactorau agweddol. Mae'n bwysig cofio hyn wrth ystyried y math o neges y gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol fod am ei chyfleu. Mae'n annhebygol y bydd angen cymaint o ymdrech i argyhoeddi'r gynulleidfa hon i gymryd rhan ac felly gall y neges fod yn fwy ffeithiol gyda llai o bwyslais ar y cynnwys cymelliannol.

2.47 Er mwyn cynnal cofrestr gyflawn a chywir mae'n hanfodol bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn estyn allan i gyrraedd pobl sy'n symud tŷ.

Dylai Swyddogion Cofrestru Etholiadol gydgysylltu ymdrechion ag adrannau eraill yn y cyngor, megis adran y dreth gyngor, a allai feddu ar ddata sy'n ymwneud â'r grŵp hwn. Gall asiantau gwerthu tai roi rhywfaint o wybodaeth berthnasol hefyd.

Rhydd Rhan D, 'Gwella cyflawnrwydd a chywirdeb', fanylion ar y broses o archwilio data arall at ddibenion cofrestru.

Rhagor o wybodaeth

2.48 Y Ganolfan Do Politics (www.dopolitics.org.uk) yw adnodd ar-lein y Comisiwn ar gyfer gweinyddwyr etholiadol. Mae'n dwyn ynghyd holl ddeunyddiau'r Comisiwn ar ymwybyddiaeth y cyhoedd ac addysg, ynghyd â chyngor a chanllawiau i ymarferwyr sy'n anelu at gynyddu ymwybyddiaeth pleidleiswyr a nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru.

2.49 Mae'r holl ddeunyddiau ar y wefan ar gael am ddim ac maent yn cynnwys astudiaethau achos ar arfer da, technegau ymgyrchu a thempledi ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ymhlith amrywiaeth o gynulleidfaoedd targed megis y rhai y manylir arnynt uchod.

2.50 Gall Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd ymrwymo i gael cylchlythyrau Do Politics misol er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â chyfranogiad etholiadol.

2.51 Os bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn gwybod am unrhyw astudiaethau achos da i'w cynnwys ar y Ganolfan Do Politics, neu os hoffent ragor o wybodaeth, dylent gysylltu â'r Comisiwn yn dopolitics@electoralcommission.org.uk.